

# Canllawiau Swyddogion Cofrestru Etholiadol

## Rhan 2 – Y fframwaith cofrestru

**Mehefin 2019**



**SAA**

*Scottish Assessors Association*

## Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid
Medi 2013	Cyhoeddwyd yn wreiddiol
Mai 2015	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2015 a'r cyfnod cyn pleidleisiau Mai 2016
Tachwedd 2015	Adolygwyd i ddangos dod a diwedd y cyfnod pontio ymlaen i fis Rhagfyr 2015
Gorffennaf 2016	Diweddarwyd i dynnu cyfeiriadau at etholwyr nad ydynt wedi eu cofrestru'n unigol; i ddangos y safonau perfformiad newydd; ac i ddangos Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2016.
Mehefin 2017	Diweddarwyd i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol ac i wneud diwygiadau canlyniadol; i adlewyrchu'r broses o drosglwyddo swyddogaethau gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet <sup>i</sup> ; i adlewyrchu Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) 2017; i ychwanegu cyfeiriad bod y Swyddog Canlyniadau Etholiadol yn uwch swyddog (paragraff <b>2.5</b> ); ac i ychwanegu dolenni i enghreifftiau o arfer da yn y broses gofrestru etholiadol.
Mawrth 2018	Diweddarwyd i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) (yn weithredol o 25 Mai 2018) a'r Bil Diogelu Data</li> <li>• rhoi manylion cyswllt diwygiedig ar gyfer archwiliadau mewnfudo (paragraffau <b>3.60</b> a <b>4.16</b>)</li> <li>• amlygu bod angen newid Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 er mwyn diwygio'r rhestr o wledydd y gymanwlad (paragraff <b>3.72</b>)</li> </ul>
Mehefin 2018	Mae paragraffau <b>3.40</b> a <b>3.87</b> wedi'u diweddaru i ddangos, mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig, efallai bydd carcharorion sydd wedi eu rhyddhau ar drwydded dros dro yn bodloni'r meini prawf i gofrestru i bleidleisio.
Gorffenhaf 2018	Mae paragraffau <b>3.72</b> wedi eu diweddaru i ddangos bod gwladolion Gambiaidd sy'n drigolion yn y DU bellach yn gymwys i gofrestru i bleidleisio.

<sup>i</sup> Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Etholiadau, Refferenda, Trydydd Sector a Gwybodaeth) 2016

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Ynghylch y canllawiau hyn .....</b>	<b>1</b>
<b>2</b>	<b>Eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau .....</b>	<b>3</b>
	Swyddog Cofrestru Etholiadol.....	3
	Y tîm cofrestru etholiadol .....	7
	Adnoddau .....	7
<b>3</b>	<b>Cymhwysedd i gofrestru .....</b>	<b>8</b>
	Dyddiad perthnasol.....	8
	Cyfeiriad Cymhwyso .....	9
	Preswyllo .....	9
	Oed.....	15
	Cenedligrwydd .....	16
<b>4</b>	<b>Sut i gofrestru .....</b>	<b>27</b>
	Sianeli cofrestru.....	27
<b>5</b>	<b>Cynnal y gronfa ddata eiddo .....</b>	<b>34</b>

# 1 Ynghylch y canllawiau hyn

1.1 Dyma ail ran y canllawiau cynhwysfawr ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Mae'n gosod y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu cofrestru etholiadol, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

1.2 Mae'r canllawiau wedi'u cyfeirio at y Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r dyletswyddau y maent yn eu cyflawni. Gan y gall y dyletswyddau hyn, yn ymarferol, gael eu cyflawni gan ddirprwyon a/neu staff a benodir, byddwn yn defnyddio'r term 'chi' drwy gydol y canllawiau i olygu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a phwy bynnag sy'n cyflawni swyddogaethau'r Swyddog ar eu rhan. Trwy gydol y ddogfen hon, defnyddiwn 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol, a 'gallech/dylech' ar gyfer arferion a argymhellir.

1.3 Mae wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad agos gydag aelodau o Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA), Bwrdd Cydweithredu a Chynghori Etholiadol y DU (ECAB) a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda (ERRWG). Mae'n adlewyrchu rhwymedigaethau cyfreithiol y Swyddog Cofrestru Etholiadol, a beth rydym ni, yr AEA SOLACE, yr SAA, yr ECAB a'r ERRWG yn credu y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddisgwyl gan eu staff wrth gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda.

1.4 Mae'r canllawiau yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth a restrir ym mharagraff 1.8 [Rhan 1 - Cynllunio ar gyfer darparu gweithgarwch cofrestru etholiadol](#). Byddwn yn darparu canllawiau pellach a chefnogaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan wneir unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth. Caiff cyfeiriadau deddfwriaethol eu cynnwys drwy'r canllawiau fel ôl-nodiadau. Gan fod dwy fersiwn o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001: un ar gyfer Cymru a Lloegr ac un ar gyfer yr Alban; cyfeirir at y ddwy fersiwn o'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae "Rheoliad 26(1)(i) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001" yn cyfeirio at Reoliad 26(1)(i) yn fersiwn Cymru a Lloegr a fersiwn yr Alban o Reoliadau 2001.

1.5 Byddwch yn gweld cyfeiriadau at y [fframwaith safonau perfformiad](#) wedi'u cynnwys drwy'r canllawiau. Amcan cyffredinol y fframwaith safonau perfformiad newydd yw cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau etholiadol a gynhelir yn dda. Datblygwyd y fframwaith o gwmpas yr heriau allweddol o bersbectif sicrhau bod pob person cymwys yn gallu cymryd rhan yn y broses etholiadol pe baent yn dymuno, ac o gyflawni cyfrestrau etholiadol sydd mor gywir (gan gynnwys sicrhau dim cofnodion twyllodrus ar y gofrestr etholiadol) a chyflawn â phosibl.

1.6 Bydd ein canllawiau, teclynnau a thempledi, ynghyd â chefnogaeth gan ein timau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr yn parhau i'ch helpu i gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Mae'r teclynnau a'r templedi yr ydym wedi eu darparu wedi'u hamlygu yn y blychau drwy gydol y canllawiau.



Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r AEA a'r SAA er mwyn nodi enghreifftiau o arfer da mewn prosesau cofrestru etholiadol. Cyhoeddwyd yr adnoddau canlynol ar ein gwefan ac maent yn cael eu hamlygu mewn blychau drwy'r canllawiau.

- [Defnyddio llechi ar gyfer cofrestru etholiadol](#)
- [Cyfathrebu](#)
- [Cyrraedd trigolion cartrefi gofal](#)
- [Canfasio personol effeithiol](#)
- [Annog ymatebion](#)
- [Cyrraedd myfyrwyr](#)
- [Defnydd effeithiol o'r data sydd ar gael](#)
- [Rheoli prosesau cofrestru yn effeithiol](#)

Mae ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â diogelu data.

# 2 Eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau

## Swyddog Cofrestru Etholiadol

2.1 Er mwyn gallu pleidleisio mewn etholiadau ym Mhrydain Fawr, mae'n rhaid i enw person fod ar gofrestr etholwyr. Mae'r cyfrifoldeb dros greu'r gofrestr etholiadol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

2.2 Yn Lloegr, mae gofyn i gyngor pob dosbarth a bwrdeistref Llundain benodi swyddog y cyngor i fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn Ninas Llundain, mae'n rhaid i'r Cyngor Cyffredin benodi swyddog yn Swyddog Cofrestru Etholiadol.

2.3 Yng Nghymru, y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sy'n penodi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac mae'n rhaid i'r person a benodir fod yn swyddog presennol y cyngor.

2.4 Yn yr Alban, mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael ei benodi gan yr awdurdod lleol neu gan gyfuniad o awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i'r person a benodir un ai fod yn swyddog y cyngor hwnnw, neu o gyngor cyffiniol.

2.5 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn uwch swyddog, er enghraifff Prif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, a dylai ymgymryd â hyfforddiant perthnasol er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, a'i fod yn eu cynnal.

2.6 Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol mae gennych ddyletswydd i gynnal cofrestr o etholwyr seneddol a chofrestr o etholwyr llywodraeth leol,<sup>1</sup> yn ogystal â chofrestr o ddinasyddion perthnasol yr Undeb Ewropeaidd sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop<sup>2</sup> a chofrestr o'r cymheiriaid sy'n byw tu allan i'r DU sydd wedi gwneud datganiad i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop.<sup>3</sup> Mae'r cofrestrau hyn yn cynnwys manylion y rheiny sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio a dylid eu cyfuno cyn belled â bod hyn yn ymarferol. Dylid ystyried unrhyw gyfeiriad at 'y gofrestr' yn y canllawiau hyn fel cyfeiriad at y cofrestrau cyfun oni nodir yn wahanol.

2.7 Rhaid i chi hefyd gynhyrchu fersiwn olygedig (neu 'agored') o'r gofrestr.<sup>4</sup> Yn y canllawiau hyn byddwn yn defnyddio'r term 'cofrestr olygedig', gan mai dyma'r term technegol a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth. Defnyddir y term 'y gofrestr agored' i ddisgrifio'r gofrestr olygedig i aelodau'r cyhoedd i'w gwneud hi'n haws deall diben y gofrestr hon a sut y'i defnyddir. Mewn enghreifftiau penodol lle'r

ydym yn sôn am y gofrestr olygedig yn y cyd-destun hwn, byddwn yn cyfeirio at y gofrestr olygedig fel 'y gofrestr agored'.

2.8 Dim ond enwau a chyfeiriadau'r rheiny ar y gofrestr lawn sydd heb ddewis i'w manylion beidio ag ymddangos ar y gofrestr olygedig sydd ar y gofrestr olygedig.

2.9 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol a benododd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, roi'r adnoddau sydd eu hangen arnoch chi i gyflawni eich swyddogaethau statudol, ac mae'n rhaid i unrhyw dreuliau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wrth gyflawni eu swyddogaethau gael eu talu gan yr awdurdod lleol a'u penododd.<sup>5</sup> Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys dyletswyddau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sydd wedi'u gosod mewn deddfwriaeth, ac unrhyw ddyletswyddau eraill a'u gorfodwyd gan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol rym i gyfarwyddo Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyflawni eu swyddogaethau. Dim ond ar gyfarwyddyd, ac yn unol ag argymhelliad y Comisiwn Etholiadol gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y grym cyfarwyddo hwn.

2.10 Bydd angen i chi gyhoeddi cofrestrau sydd mor gywir a chyflawn â phosibl; gan cywir rydym yn golygu nad oes cofnodion ffug ar y cofrestrau etholiadol, a gan cyflawn rydym yn golygu bod pob person sydd â hawl i gael cofnod ar gofrestr etholiadol wedi'u cofrestru.

2.11 Mae gennych ddyletswydd yn unol ag Adran 9A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013) i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd o gynnal y gofrestr etholiadol, ac i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, fod yr holl rai sy'n gymwys (a dim eraill) wedi'u cofrestru arni.

2.12 Camau Adran 9A yw:

- anfon y ffurflen ar gyfer y canfas mwy nag unwaith i unrhyw gyfeiriad
- gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ ar fwy nag un achlysur
- cysylltu mewn unrhyw fodd arall y mae'r swyddog cofrestru yn credu sy'n addas gyda phobl nad oes ganddynt gofnod mewn cofrestr
- archwilio unrhyw gofnodion sydd gan unrhyw berson y mae ganddo hawl archwilio yn unol â neu drwy rinwedd unrhyw gyflawniad neu reolaeth cyfraith
- darparu hyfforddiant i bobl o dan ei gyfarwyddyd neu reolaeth mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd

2.13 Mae'n rhai i chi ystyried pob un o'r camau a restrir yn Adran 9A yn weithredol, a chymryd pob cam o'r fath, neu unrhyw gam(au) eraill nas rhestrir, yr

ydych yn ystyried eu bod yn hanfodol i gyflawni eich dyletswydd i gynnal y gofrestr o etholwyr. Nid oes rhaid cymryd y camau mewn unrhyw drefn benodol.

2.14 Os ydych yn methu â chymryd camau lle bo gofyn, gallech fod yn torri eich dyletswydd swyddogol, sydd ar gollfarn ddiannod yn gallu golygu dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.<sup>6</sup>

2.15 Nid oes gofyn bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref at gyfeiriad penodol mewn rhai amgylchiadau rhagnodedig:<sup>7</sup>

- Yn ystod y canfas, nid oes gofyn cyfreithiol bellach bod Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i gyfeiriad (na chynnal y prosesau dilynol os oes Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi'i anfon eisoes) os ydynt wedi penderfynu ar gais cofrestru llwyddiannus ar gyfer y cyfeiriad hwnnw, a bod yr ymgeisydd wedi nodi mai nhw yw'r unig breswlydd sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban).
- Tu allan i gyfnod y canfas, lle bo Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi penderfynnu cais cofrestru ar gyfer cyfeiriad yn llwyddiannus, a bod yr ymgeisydd wedi nodi mai nhw yw'r unig breswlydd sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban), nid oes gofyn cyfreithiol bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref fel rhan o'r canfas blynyddol nesaf.

2.16 Mae canllawiau manylach yn [Rhan 3: Canfas](#) blynyddol.

2.17 Mae hefyd gofyn bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cymryd camau penodol i ddilyn unrhyw ddiffyg ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref, gan gynnwys dau nodyn atgoffa ac ymweliad personol. Bydd hefyd angen anfon G wahoddiad i Gofrestru a ffurflen gais cofrestru at unrhyw etholwyr posibl newydd a nodir, a bydd angen i chi gymryd y camau penodol - anfon dau nodyn atgoffa ac ymweliad personol - i ddilyn unrhyw rai nad ydynt yn ymateb i Wahoddiad i Gofrestru.<sup>8</sup> Ni fydd y prosesau hyn i gyd yn lliniarol a bydd angen eu cynnal ar yr un pryd.

2.18 Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol **drwy gydol y flwyddyn** ac nid yn unig yn ystod y cyfnod canfasio.

2.19 Mae Adran 69 Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 hefyd yn rhoi dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gymryd camau o'r fath fel y credant ei fod yn briodol i annog cyfranogiad etholwyr yn eu hardal yn y broses etholiadol. Drwy wneud hyn, mae gofyn bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ystyried canllawiau a roddir gan y Comisiwn Etholiadol.

2.20 Yn ategol at gynnal y gofrestr, mae hefyd gennych ddyletswydd i brosesu ceisiadau am bleidleisiau absennol, cynnal cofnod pleidleisiau absennol a chynhyrchu'r rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer etholiad.<sup>9</sup>



## Rôl rheolydd data

2.21 Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol, rydych yn 'rheolydd data' gyda dyletswydd statudol i brosesu data personol penodol er mwyn cynnal y gofrestr etholiadol. O dan ddeddfwriaeth diogelu data, bydd angen i chi allu **dangos** eich bod yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau y cânt eu prosesu'n gyfreithlon yn deg ac mewn modd tryloyw.

2.22 Y cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw y bydd angen i bob rheolydd data sicrhau ei fod wedi cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau gofrestru ar wahân i'w cyngor.

2.23 O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, rhaid i "awdurdod cyhoeddus" benodi swyddog diogelu data i roi cyngor ar faterion diogelu data. Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau, ni chewch eich cynnwys yn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" a geir yn Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac felly nid yw'n ofynnol i chi benodi swyddog diogelu data i gyflawni eich dyletswyddau; fodd bynnag, mae'n rhaid i'ch cyngor penodi gael swyddog diogelu data a dylech gysylltu â'r swyddog hwnnw o ran arfer da mewn perthynas â diogelu data.

2.24 Un elfen allweddol o ddeddfwriaeth diogelu data yw'r ffocws cynyddol ar atebolrwydd a bod yn dryloyw wrth brosesu data personol. Mae'n rhaid i chi allu dangos eich bod yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gan sicrhau y caiff data personol eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n allweddol cael a chynnal cynlluniau ysgrifenedig a chofnodion er mwyn rhoi llwybr archwilio.



Mae ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn dangos y gallwch roi mesurau ar waith i fodloni'r gofyniad i ddangos cydymffurfiaeth ac i sicrhau bod diogelu data yn rhan annatod o bopeth a wnewch.

## Dirprwyon

2.25 Gall y cyngor gymeradwyo penodi un neu fwy Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol, a elwir yn 'Deputes' yn yr Alban, all gyflawni dyletswyddau a phwerau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn wahanol i Swyddogion Canlyniadau, ni all y Swyddog Cofrestru Etholiadol benodi dirprwy ei hun, heblaw bod yr awdurdod i wneud hynny wedi'i ddirprwyo iddo gan y cyngor.<sup>10</sup> Gall y cyngor roi pwerau llawn neu benodol i'r dirprwy a dylid gwneud hyn yn glir yn y penodiad. Yn benodol, gallai fod yn ddefnyddiol i benodi dirprwyon i ymgymryd â gweithdrefnau lled-gyfreithiol, megis gwrandawriadau ceisiadau cofrestru, gwrthodiadau ac adolygiadau.

2.26 Dylech sicrhau fod trefniadau dirprwy yn eu lle, rhag ofn nad ydych yn gallu gweithredu'n bersonol. Dylai fod gan unrhyw ddirprwyon a benodir y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u haseinio iddyn nhw. Dylid gwneud penodiadau yn ysgrifenedig a dylai gynnwys unrhyw fanylion y swyddogaethau y mae gan y dirprwy awdurdod i gyflawni ar eich rhan. Dylai'r derbyniad fod yn ysgrifenedig hefyd.

2.27 Yng Nghymru a Lloegr, os yw swydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn wag, neu os nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu gweithredu, gellir cyflawni dyletswyddau a phwerau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gan y swyddog priodol yn y cyngor.<sup>11</sup>

## Y tîm cofrestru etholiadol

2.28 Mae'n rhaid i'r cyngor a'ch penododd, yn gyfreithiol, ddarparu swyddogion i'ch cynorthwyo i gyflawni eich swyddogaethau statudol.<sup>12</sup> Dylech ystyried sut gall y cyngor ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau y gellir gweithredu eich cynllun gweithredu IER yn llwyddiannus. Yn benodol, dylech sicrhau fod gennych nifer ddigonol o staff gyda'r sgiliau cywir fel rhan o'r tîm fydd yn eich cefnogi i gyflawni eich dyletswyddau statudol. I gael canllawiau ar gynllunio, hyfforddi a recriwtio, gweler [Rhan 1 – Cynllunio ar gyfer darparu gweithgarwch cofrestru etholiadol](#).

## Adnoddau

2.29 Fel rhan o'ch proses gynllunio flynyddol, bydd angen i chi ystyried pa gyllideb sydd angen amoch er mwyn cynnal eich swyddogaethau statudol. Dylid cytuno'r gyllideb ar gyfer cofrestru rhyngoch chi a'r cyngor a'ch penododd, a dylai fod yn ddigonol i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswydd i gynnal y gofrestr. Dylai hyn gynnwys cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ, ymweliadau personol, ymholiadau drwy'r post neu fel arall fel bo'n ofynnol i gyflawni cofrestrau o etholwyr cyflawn a chywir i fodloni eich dyletswyddau Adran 9A.

2.30 Yn yr Alban os ydych yn gweithredu ar ran mwy nag un awdurdod, dylai pob awdurdod lleol gyfrannu at y gyllideb gofrestru.

2.31 Dylech gyfrifo'n briodol ar gyfer treuliau cofrestru a chysylltu gyda'r cyngor i gytuno ar broses gyfrifo a chyllideb addas.

2.32 Er ein bod ni'n cydnabod y pwysau cynyddol o ran cyllidebau sy'n wynebu awdurdodau lleol sy'n eu gorfodi i wneud penderfyniadau anodd rhwng gwasanaethau statudol, nid yw diffyg adnoddau yn eich eithrio rhag cydymffurfio â'r gyfraith.

# 3 Cymhwysedd i gofrestru

3.1 Mae tair agwedd i'r hawl i gael eich cofrestru:<sup>13</sup>

- Mae tair agwedd ar yr hawl i gofrestru bod y cais yn cael ei wneud gan rywun sy'n ymddangos i fod y person a enwir ar y cais
- y bodlonir unrhyw ofynion statudol mewn perthynas â'r cais, gan gynnwys sut y caiff ei wneud a'r wybodaeth y mae'n rhaid iddo gynnwys a
- bod y person a enwir ar y cais yn ymddangos i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ddiwallu meini prawf cymhwyso ar gyfer cofrestru ac nid yw wedi'i wahardd rhag cofrestru

## Dyddiad perthnasol

3.2 Mae'n rhaid i chi benderfynu ar geisiadau ar gyfer cofrestru yn seiliedig ar p'un a bod ymgeisydd yn bodloni gofynion cofrestru a p'un a neu beidio eu bod wedi'u gwahardd rhag cofrestru ar y 'dyddiad perthnasol'. Bydd y dyddiad perthnasol yn amrywio yn seiliedig ar y modd y gwneir y cais.

3.3 Gellir gwneud cais i gofrestru yn y ffyrdd canlynol:<sup>14</sup>

- ar ffurflen gais a anfonwyd neu a ddosbarthwyd i chi yn uniongyrchol
- ffurflen ar-lein a gynhelir gan Wasanaeth Digidol IER gyda manylion y cais wedi'u hanfon atoch gan y gwasanaeth hwnnw
- yn ôl eich doethineb chi, yn bersonol
- yn ôl eich doethineb chi, drwy alwad ffôn gyda chi

3.4 Dyddiad perthnasol cais am gofrestru a anfonir atoch ar bapur yw'r diwrnod y gwneir y cais<sup>15</sup>, h.y. pan gwblheir y ffurflen gan yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i gais i gofrestru gael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau perthnasol, beth bynnag yw'r dyddiad perthnasol. Er enghraifft, ni fyddai cais papur a ddyddiwyd cyn y dyddiad cau cofrestru ond a dderbyniwyd ar ei ôl ddim yn gallu cael ei benderfynu a'u gynnwys yn y diweddariad nesaf i'r gofrestr.

3.5 Tybir bod ceisiadau a wneir ar-lein wedi'u gwneud ar y dyddiad y mae Gwasanaeth Digidol IER yn cofnodi fod y cais wedi'u wneud, a bydd y stamp dyddiad electronig yn cael ei gynnwys ar y wybodaeth a anfonir i chi gyda'r cais.

3.6 Tybir bod ceisiadau dros y ffôn ac mewn person wedi'u gwneud ar yr adeg y mae'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y cais wedi'i gofnodi a bod yr ymgeisydd wedi datgan fod y wybodaeth yn wir.

## Cyfeiriad Cymhwys

3.7 Y cyfeiriad cymhwys yw'r cyfeiriad y mae hawl gan berson gofrestru ynddo. Dyma'r cyfeiriad lle mae'n rhaid i'r ymgeisydd neu'r etholwr fod yn 'preswyllo' yn unol â deddfwriaeth etholiadol (gweler isod).

3.8 Mae'n rhaid i'r gofrestr gynnwys cyfeiriadau cymhwys o'r bobl hynny sydd wedi'u cofrestru arno<sup>16</sup>, yn amodol ar rai eithriadau, gan gynnwys etholwyr tramor ac anhysbys, a drafodir yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#). Mae [Rhan 3: Canfas blynyddol](#) yn cynnwys mwy o wybodaeth ar fformat y gofrestr.

## Preswyllo

3.9 Mae'n rhaid i berson breswyllo ar y dyddiad perthnasol yn y cyfeiriad y maen nhw yn ceisio cael eu cofrestru.<sup>17</sup> Mae gan breswyllo ystyr penodol mewn cyfraith etholiadol, ac nid yw yr un peth â phreswyllo at ddibenion eraill megis treth incwm neu dreth gyngor.

3.10 Fel arfer bydd person yn preswyllo mewn cyfeiriad at ddibenion etholiadol os mai dyna yw eu cyfeiriad cartref parhaol.

3.11 Wrth bennu gofynion preswyllo, bydd angen i chi ystyried amgylchiadau penodol yr ymgeisydd, gan gynnwys y diben y maent yn bresennol mewn cyfeiriad penodol a/neu'r rheswm y maent yn absennol.



Mae gan rai categorïau o etholwyr, gan gynnwys pleidleiswyr y lluoedd arfog, etholwyr anhysbys ac etholwyr tramor, ddarpariaethau arbennig yn rhoi'r hawl iddyn nhw gofrestru er gwaetha'r ffaith nad ydynt yn bodloni'r gofyniad preswyllo. Wrth gyflwyno'r datganiad perthnasol ynghyd â'u cais i gofrestru i bleidleisio, tybir fod etholwyr o'r fath yn bodloni'r gofynion preswyllo. Mae rhagor o wybodaeth ar y mathau hyn o etholwyr a'r broses iddynt gofrestru yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

## Gofyn am fwy o wybodaeth

3.12 Os nad ydych yn fodlon bod ymgeisydd neu etholwr yn preswyllo mewn cyfeiriad penodol gallwch ofyn i'r ymgeisydd neu'r etholwr roi rhagor o wybodaeth i'ch cynorthwyo i bennu p'un a ydynt yn breswlydd at ddibenion cofrestru.<sup>18</sup> Er enghraifft, efallai bod gennych wybodaeth leol benodol sy'n awgrymu nad yw'r ymgeisydd yn preswyllo yno. Er y bydd o fudd i'r etholwr neu'r ymgeisydd i ymateb i ymholiad o'r fath, ni allwch fynnu eu bod yn darparu'r wybodaeth hon i chi. Lle nad ydynt yn ymateb ac nad ydych yn gallu cael y wybodaeth hon drwy ddulliau eraill, efallai y bydd yn rhaid i chi oedi eu cais neu adolygu eu cofrestriad.

3.13 Mae gennych chi, ar wahân i hyn, bŵer i geisio gwybodaeth gan **unrhyw berson arall** at ddibenion cynnal y gofrestr.<sup>19</sup> Mae hyn yn golygu y gallwch chi, er enghraifft, ddefnyddio'r pŵer hwn i fynnu i'r rheiny sydd â gofal sefydliadau amfeddiannaeth i ddarparu gwybodaeth am breswylwyr i chi. Gallai methu ag ymateb i gais am wybodaeth o'r fath arwain at ddirwy o £1,000.<sup>20</sup> Pan fyddwch yn ceisio gwybodaeth yn swyddogol, dylech egluro'r ddirwy fwyaf y gallent ei chael os nad ydynt yn ymateb i'ch cais.



Mae canllawiau ar ddefnyddio'r grym hyn i ddilysu ymgeiswyr nad ydynt yn gallu darparu Rhif Yswiriant Gwladol yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

## Nid yw absenoldeb dros dro yn golygu nad yw person yn breswlydd

3.14 Nid yw bod yn breswlydd at ddibenion cofrestru yn gofyn meddiannu'r cyfeiriad preswyl ar y dyddiad perthnasol.<sup>21</sup>

### Bod i ffwrdd ar wyliau

3.15 Nid yw mynd ar wyliau yn effeithio cymhwyster preswyllo person at ddibenion cofrestru etholiadol, cyn belled â mai'r cyfeiriad cymhwysu yw cyfeiriad parhaol y person a bod y person yn bwriadu dychwelyd i'r cyfeiriad parhaol wedi eu cyfnod i ffwrdd.

### Gweithio oddi cartref

3.16 Os nad yw rhywun yn bresennol yn y cyfeiriad ar y dyddiad perthnasol o ganlyniad i swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth, ni fydd hyn yn effeithio cymhwyster y preswyllo, cyn belled â:<sup>22</sup>

- eu bod yn bwriadu dychwelyd i breswyllo ymhen cyfnod o chwe mis o pan wnaethant beidio â phreswyllo, ac ni fydd y rheswm dros eu habsenoldeb yn eu rhwystro rhag gwneud hynny, neu
- yr eiddo yw man preswyllo parhaol yr ymgeisydd neu'r ymgeisydd ac eraill, a'r unig reswm nad yw'r ymgeisydd yn yr eiddo ar hyn o bryd yw o ganlyniad i ddyletswydd y maent yn ymgymryd ag ef

## Nid yw presenoldeb dros dro wastad yn golygu fod rhywun yn breswilydd

### Preswylwyr mewn llety dros dro

3.17 Os yw person mewn llety dros dro ac nid oes ganddo gartref fan arall, yna gallant, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, gymryd eu bod yn preswyllo yn y cyfeiriad hwnnw. Os, fodd bynnag fod gan y person gartref rywle arall, ni ellir tybio eu bod yn breswilydd yn y cyfeiriad dros dro.<sup>23</sup>

### Gwestai

3.18 Nid yw gwestai sy'n aros mewn eiddo yn breswilydd yn yr eiddo hwnnw os oes ganddynt gartref parhaol rywle arall. Mewn achos o'r fath, tybir y bydd y gwestai yn breswilydd yn eu cartref parhaol. Fodd bynnag, bydd gwestai nad oes ganddo gartref parhaol arall, yn ddibynnol ar amgylchiadau, yn cael ei ystyried fel bod yn breswilydd at ddibenion etholiadol a gallwch benderfynnu eu bod yn preswyllo yn y cyfeiriad hwnnw.

## Meddiant anghyfreithlon o dir neu eiddo

3.19 Nid yw meddiant anghyfreithlon o dir neu eiddo yn gwahardd person rhag cofrestru yno os tybir mai dyna yw eu llety parhaol. O ganlyniad, rhaid diystyru unrhyw fater mewn perthynas â thenantiaeth, perchnogaeth neu feddiannaeth gyfreithlon yr eiddo gan yr ymgeisydd wrth benderfynnu p'un a bod y gofynion preswyllo wedi'u bodloni ai peidio.

## Hawl i gofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad


3.20 Mae rhai amgylchiadau lle gall etholwyr gael hawl i gofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad. Bydd angen pwyso a mesur pob achos yn unigol, a bydd angen i chi ystyried y canlynol wrth benderfynnu p'un a bod rhywun yn gymwys ai peidio i gael eu cofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad:

- gall person gael mwy nag un cartref, ond nid yw perchnogaeth eiddo yn ddigonol i sefydlu bod person yn preswyllo mewn cyfeiriad

- bydd y defnydd o'r ail gartref yn effeithio p'un a gellir ystyried bod rhywun yn preswyllo ai peidio mewn cyfeiriad, h.y. ai dyma le mae 'prif fusnes bywyd' yn cael ei gynnal?
- nid yw presenoldeb dros dro mewn cyfeiriad yn gwneud person yn breswlydd yno
- nid yw absenoldeb dros dro mewn cyfeiriad yn tynnu hawl preswyllo person

## Myfyrwyr

3.21 Mae myfyrwyr yn aml yn byw mewn dau gyfeiriad, un yn ystod y tymor ac un yn ystod y gwyliau. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gofrestru yn y ddau gyfeiriad, os ystyriwch fod ganddynt gartref parhaol yn y ddau le.<sup>24</sup>

	<p><b>Rhannu arfer da</b> Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o sut mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ymgysylltu â myfyrwyr ac yn eu hannog i gofrestru yn ein hadnodd '<a href="#">Cyrraedd myfyrwyr</a>'.</p>
---	--

## Ail gartrefi

3.22 Yn dibynnu ar y rheswm y mae person yn preswyllo yn eu hail gartref, gellir tybio eu bod yn preswyllo yno. Ym mhob achos, byddai angen i berson allu dangos eu bod yn preswyllo yn y ddau gyfeiriad.

3.23 Mae'n annhebygol bod berchen ar ail gartref y'i defnyddir at ddibenion hamdden yn bodloni'r cymhwyster preswyllo. Nid yw bod yn berchen ar a thalu treth gyngor ar eiddo yn unig yn ddigon i fodloni cymhwyster preswyllo: er y gall hyn nodi cysylltiad gyda chyfeiriad, nid yw'n dystiolaeth o breswyllo. Rhaid gwneud pob penderfyniad ar sail yr achos unigol.

3.24 Wrth ystyried cofrestru person yn eu hail gyfeiriad, dylech ystyried y rheswm y mae'r etholwr yn y cyfeiriad, a dylech ystyried pob achos yn unigol.

## Hawl i gofrestru heb gartref sefydlog

### Masnachlongwyr

3.25 Mae hawl gan fasnachlongwyr nad ydynt yn preswyllo yn y DU, ond y byddent heblaw am natur eu cyflogaeth, gael eu trin fel preswylwyr un ai mewn cyfeiriad y byddent yn preswyllo ynddo fel arfer heb law am eu galwedigaeth, neu mewn hostel neu glwb sy'n darparu llety i fasnachlongwyr ac y byddant yn aml yn aros yno yn ystod eu galwedigaeth.<sup>25</sup>

### Cymunedau sipsiwn a theithwyr

3.26 Nid oes gan rai aelodau o gymunedau sipsiwn a theithwyr gyfeiriad parhaol, er efallai y byddant yn aros am gyfnod o amser mewn safleoedd a ddynodir gan

yr awdurdod lleol. Lle mae aelodau o gymunedau sipswn a theithwyr yn bresennol ar y safleoedd hynny am amser sylweddol, fellir eu hystyried yn breswylwyr yno a chofrestru'r rheiny ar y safle fel etholwyr arferol.

3.27 Dylech ystyried presenoldeb cymunedau sipswn a theithwyr yn eich ardal a phenderfynu'r camau gorau i'w cymryd yn lleol.

3.28 Bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal unrhyw safle ar gyfer sipswn a theithwyr, a hefyd am sicrhau fod addysg addas yn cael ei ddarparu ar gyfer eu plant. Bydd swyddogion yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am hyn yn gallu'ch cynorthwyo i asesu'r sefyllfa yn yr ardal lleol a helpu i hwyluso cofrestru unrhyw sipswn neu deithwyr sydd â hawl cael eu cofrestru.

3.29 Lle nad oes cyfeiriad lle gellir ystyried fod cymunedau sipswn a theithwyr yn preswylwyr, ni allant gofrestru fel etholwyr cyffredinol, ond gallant gofrestru yn y lle ble maent yn treulio mwyafrif o'u hamser, neu y mae ganddynt gysylltiad lleol, drwy wneud datganiad cysylltiad lleol.<sup>26</sup>



Mae mwy o wybodaeth ar wneud neu brosesu datganiadau o gysylltiadau lleol i'w cael o dan 'etholwyr categori arbennig' yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

### **Pobl sy'n byw ar fadau culion a phreswylfeydd symudol eraill**

3.30 Gellir ystyried bod unrhyw berson sy'n byw ar gwch, cwch preswyl neu breswylfa debyg sydd wedi angori'n barhaol ym Mhrydain Fawr yn preswylwyr yn y cyfeiriad hwnnw. Bydd pobl sy'n byw yn barhaol mewn preswylfeydd o'r fath yn cael eu cofrestru fel etholwyr arferol.

3.31 Pan fo person yn byw ar gwch neu breswylfa debyg heb ei angori'n barhaol, ni ellir ystyried fod gan y person hwnnw unrhyw gyfeiriad penodol. Bydd unrhyw berson o'r fath, fodd bynnag, yn gallu cofrestru drwy wneud datganiad o gysylltiad lleol. Bydd hawl ganddynt gofrestru mewn man lle maent yn treulio mwyafrif o'u hamser (boed hynny yn ystod y dydd neu'r nos).<sup>27</sup> Gall hyn fod, er enghraifft, fod yn iard gychod a ddefnyddir i gynnal a chadw'r cwch.




Mae mwy o wybodaeth ar wneud neu brosesu datganiadau o gysylltiadau lleol i'w cael o dan 'etholwyr categori arbennig' yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

### **Pobl ddigartref**

3.32 Ni fydd gan berson digartref gyfeiriad cartref parhaol, ac felly ni fyddant yn gallu cofrestru fel etholwr arferol, ond byddant yn gallu cofrestru drwy wneud datganiad o gysylltiad lleol. Gallant gael eu cofrestru mewn cyfeiriad y maent yn treulio rhan sylweddol o'u hamser, p'un a bod hyn yn ystod y dydd neu'r nos.<sup>28</sup>



Gallai, er enghraifft, fod yn safle bws, mainc mewn parc, neu'n fynedfa i siop y stryd fawr.



Mae mwy o wybodaeth ar wneud neu brosesu datganiadau o gysylltiadau lleol i'w cael o dan 'etholwyr categori arbennig' yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

## Cleifion mewn ysbytai iechyd meddwl

3.33 Gall person sydd wedi'i gymryd fel claf preswyl mewn ysbyty iechyd meddwl, neu sefydliad sy'n cael ei gynnal yn bennaf i dderbyn a thrin pobl gyda phroblem iechyd meddwl gael ei gofrestru yn yr ysbyty/sefydliad os yw'r cyfnod y maent yn debygol o dreulio yno yn ddigonol iddynt gael eu hystyried fel preswlydd yno.<sup>29</sup>

3.34 Mae hawl gan gleifion mewn ysbytai iechyd meddwl hefyd i gael eu cofrestru drwy wneud datganiad o gysylltiad lleol yn:<sup>30</sup>

- y cyfeiriad y byddent yn byw pe na baent yn glaf, neu
- cyfeiriad yr oeddent yn arfer byw ynddo cyn iddynt ddod yn glaf

3.35 Gellir ystyried bod person mewn ysbyty iechyd meddwl yn dal yn preswyllo yn eu cartref parhaol os nad yw eu harhosiad yn yr ysbyty yn ddigon hir iddynt allu cael eu hystyried yn breswylwyr yno, neu iddynt gael eu cofrestru drwy ddatganiad o gysylltiad lleol.<sup>31</sup>



Mae mwy o wybodaeth ar wneud neu brosesu datganiadau o gysylltiadau lleol i'w cael o dan 'etholwyr categori arbennig' yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

3.36 Nid yw cleifion mewn ysbytai iechyd meddwl sy'n droseddwyr euogfarnedig yn gallu pleidleisio yn gyfreithiol ac felly nid oes hawl ganddynt gael eu cofrestru.<sup>32</sup>

## Carcharorion remand

3.37 Mae person sydd yn y ddalfa ar remand (ond ddim yn garcharor euogfarnedig), sydd yn cael eu dal mewn sefydliad penydiol neu fan arall at ddibenion carcharu, yn breswlydd yno, os yw'r cyfnod y maent yno yn ddigonol i'w galluogi i gael eu hystyried fel eu bod yn preswyllo yno.<sup>33</sup>

3.38 Gall carcharor remand hefyd ddewis cofrestru drwy wneud datganiad o gysylltiad lleol yn:<sup>34</sup>

- y cyfeiriad y byddent yn byw ynddo pe na baent yn garcharor remand, neu
- cyfeiriad yr oeddent yn byw ynddo cyn dod yn garcharor remand

3.39 Gellir ystyried bod carcharor remand yn dal yn preswyllo yn eu cartref parhaol os nad yw eu harhosiad yn y ddalfa yn ddigon hir iddynt allu cael eu hystyried yn breswylwyr yno, neu iddynt gael eu cofrestru drwy ddatganiad o gysylltiad lleol.<sup>35</sup>

## Carcharorion wedi'u cael yn euog

3.40 Nid oes hawl gan bersonau sydd wedi eu cael yn euog ac sydd mewn carchar fod wedi cofrestru gan na allant bleidleisio'n gyfreithlon (gweler paragraff 3.87). Fodd bynnag, mae hi'n bosib mewn rhai sefyllfaoedd penodol, bod carcharorion sydd wedi'u cael yn euog sydd wedi eu rhyddhau ar drwydded dros dro yn bodloni'r meini prawf i gofrestru i bleidleisio o bosib. Yn yr achosion hyn, dylid pennu'r lle mae'r person yn byw yn y modd arferol, gan ystyried canllawiau'r paragraffau uchod o 3.9 ymlaen.


## Oed

3.41 Mae hawl gan berson sydd yn 18 oed neu'n hŷn sydd, ar y dyddiad perthnasol yn bodloni cymwysterau preswyllo a chenedligrwydd, ac nad yw'n destun anallu cyfreithiol i bleidleisio gael ei gofrestru.<sup>36</sup> Hefyd, mae hawl gan bobl 17 oed a rhai sy'n 16 oed i gael eu cynnwys ar y gofrestr fel 'cyrhaeddwyr'.<sup>37</sup>

3.42 Cyrhaeddwr yw rhywun sy'n 18 o fewn y deuddeg mis yn dilyn yr 1 Rhagfyr ar ôl y 'dyddiad perthnasol'.

3.43 Mae'n rhaid i'r gofrestr gynnwys y dyddiad y bydd unrhyw gyrhaeddwr yn 18 oed, h.y. y dyddiad y bydd hawl ganddynt bleidleisio.

## Pŵer i ofyn am dystiolaeth dyddiad geni

3.44 Mae gwiriadau dyddiad geni yn rhan o'r [proses ddilysu](#)  bydd mwy o fanylion yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#). Fodd bynnag, mae gennych y pŵer o hyd i ofyn am dystiolaeth o ran dyddiad geni person.<sup>38</sup>



Os nad yw rhywun yn gwybod eu dyddiad geni, mae rhai dogfennau y gallwch ofyn amdanynt iddynt gyflwyno i chi yn unol â'r broses eithrio. Mae hefyd gennych bŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol er mwyn gwirio hunaniaeth ymgeisydd. Mae mwy o fanylion am hyn yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

3.45 Os nad ydych yn hapus o ran oedran ymgeisydd neu etholwr, mae gennych bŵer i ofyn i'r ymgeisydd neu'r etholwr i ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau eu dyddiad geni. Gallwch ofyn am y dystiolaeth ganlynol fydd yn eich helpu i benderfynnu p'un a yw rhywun yn bodloni'r meini prawf oedran:<sup>39</sup>

- tystysgrif geni
- tystysgrif brodori
- dogfen sy'n dangos fod person wedi dod yn ddinesydd gwlad arall y Gymanwlad (mewn rhai achosion, efallai na fydd yn cynnwys dyddiad geni)

## Cenedligrwydd

### Darpariaethau cyffredinol

3.46 Mae cenedligrwydd unigolyn yn pennu pa un, os o gwbl, o etholiadau'r DU y mae hawl ganddo bleidleisio ynddi.

3.47 Os yw ymgeisydd yn ansicr ynghylch unrhyw agwedd o'u cenedligrwydd, dylid eu cynghori i gysylltu â'r Swyddfa Gartref: [www.homeoffice.gov.uk](http://www.homeoffice.gov.uk). Dylech hefyd nodi wrthynt fod angen iddynt fod yn sicr o'u cenedligrwydd cyn gwneud cais - mae rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol ar gais yn drosedd, sy'n gosbadwy ar gollfarn ddiannod gan hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy amhenodol yng Nghymru Lloegr neu ddirwy heb fod yn fwy na o £5,000 yn yr Alban.<sup>40</sup>

3.48 Nid yw'r ddeddfwriaeth diogelu data yn effeithio ar y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am genedligrwydd, fodd bynnag, o dan y ddeddfwriaeth diogelu data, caiff data ar genedligrwydd eu dosbarthu fel categori arbennig o ddata personol oherwydd gallant ddatgelu tarddiad hiliol neu ethnig unigolyn.

3.49 Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn gwahardd prosesu categorïau arbennig o ddata personol oni fodlonir sail gyfreithlon ychwanegol y tu hwnt i'r rhai ar gyfer prif ddibenion prosesu data. Y sail gyfreithlon briodol ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol at ddibenion etholiadol fyddai ei fod yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd sylweddol a chyda sail yng nghyfraith y DU.

3.50 Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn mynd â hyn ymhellach, gan nodi bod y gofynion arbennig ond yn gymwys os oes gan y rheolydd data 'Ddogfen Bolisi' ar waith. Felly, fel y'i cyflwynir, mae'r Ddeddf Diogelu Data 2018 yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn prosesu data ar genedligrwydd – boed hynny fel rhan o gais i gofrestru, neu o ran penodi staff – fod gennych ddogfen bolisi sydd, ymhlith pethau eraill, yn gorfod egluro'r canlynol::

- y gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data

- y polisiau cadw a dileu

3.51 Felly, bydd angen i'ch dogfen bolisi adlewyrchu eich gweithdrefnau prosesu lleol a'ch polisiau ar gyfer cadw a dileu data personol. Rhaid i'r ddogfen bolisi hon gael ei chadw am chwe mis ar ôl i'r cyfnod prosesu ddod i ben, a chael ei hadolygu a'i diweddarau ar adegau priodol, a bod ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gais.



Mae Adran 9 ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am categorïau arbennig o ddata a'r angen am ddogfen bolisi. Byddwn yn sicrhau bod dogfen bolisi y Comisiwn ei hun ar gael ym mis Ebrill i chi gyfeirio ati.

Mae Adran 4 yr adnodd hefyd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau y caiff Hysbysiad Preifat ei gyhoeddi ar eich gwefan cyn dechrau casglu data ar ôl i'r GDPR ddod yn weithredol ar 25 Mai 2018. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio i'w defnyddio wrth ddrafftio eich hysbysiad preifatrwydd.

### Etholiadau Senedd y DU

3.52 Mae pob dinesydd Prydeinig, Gweriniaeth Iwerddon a dinesydd cymwys y Gymanwladyn bodloni gofynion cenedligrwydd i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Senedd y DU.<sup>41</sup> Mae gwybodaeth o ran beth ma'n olygu i fod yn 'Ddinesydd cymwys y Gymanwlad ym mharagraff **3.69** isod.

### Etholiadau Senedd Ewrop

3.53 Mae dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE (sydd ddim hefyd yn Brydeinig, Wyddelig neu'n ddinasyddion cymwys y Gymanwlad) yn bodloni gofynion cenedligrwydd ar gyfer cofrestru ar gofrestr dinasyddion perthnasol yr UE sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop (gweler [isod](#) am fwy o wybodaeth). Dylid cyfuno'r gofrestr o ddinasyddion perthnasol yr UE sydd â hawl pleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop, cyn belled â bod hyn yn bosibl, gyda chofrestr etholwyr seneddol a llywodraeth leol ac unrhyw gofrestr cymheiriaid. Bydd enwau'r rheiny a gofrestrir ar y gofrestr o ddinasyddion perthnasol yr Undeb sydd â hawl pleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop yn cael eu marcio i nodi hyn.<sup>42</sup>

3.54 Mae hawl gan ddinasyddion Gibraltar sy'n preswyllo yn Gibraltar gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop yn rhanbarth De-orllewin Lloegr. Gweinyddir hyn gan Swyddog Cofrestru Etholiadol Ewropeaidd Gibraltar.

### Etholiadau llywodraeth leol

3.55 Mae pob dinesydd Prydeinig, yr Undeb Ewropeaidd a dinasyddion cymwys y Gymanwlad yn bodloni gofynion cenedligrwydd i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.<sup>43</sup>


## Etholiadau eraill

3.56 Defnyddir etholfraint etholiad llywodraeth leol hefyd fel sail etholiadau i Senedd yr Alban<sup>44</sup>, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>45</sup> ac Awdurdod Llundain Fwyaf<sup>46</sup>, yn ogystal ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.<sup>47</sup>

## Pŵer i ofyn am dystiolaeth cenedligrwydd

3.57 Os nad ydych yn hapus o ran cenedligrwydd ymgeisydd neu etholwr, mae gennych bŵer i ofyn i'r ymgeisydd neu'r etholwr i ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau eu cenedligrwydd. Gallwch ofyn am y dystiolaeth ganlydol:<sup>48</sup>

- tystysgrif geni
- tystysgrif brodori
- lle bo person wedi gwneud cais i gofrestru fel etholwr tramor, tystiolaeth bellach o'u statws fel dinesydd Prydeinig.
- dogfen yn dangos fod rhywun wedi dod yn ddinesydd y Gymanwlad
- datganiad statudol eu bod yn ddinesydd 'cymwys' y Gymanwlad, dinesydd Gweriniaeth Iwerddon, neu ddinesydd perthnasol o'r Undeb Ewropeaidd. Mae gwybodaeth ynghylch beth mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd 'cymwys' y Gymanwlad ym mharagraff **3.69** isod.



Mae hefyd gennych bŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol er mwyn gwirio hunaniaeth ymgeisydd. Mae mwy o fanylion am hyn yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn.](#)

3.58 Os oes unrhyw ffi yn daladwy mewn perthynas â chynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnoch, mae'n rhaid i chi dalu'r ffi a'i drin fel rhan o'r treuliau cofrestru a delir gan yr awdurdod lleol.<sup>49</sup>

3.59 Mae hefyd gennych bŵer cyffredinol i ofyn i unrhyw drydydd parti i ddarparu gwybodaeth am unrhyw agwedd mewn perthynas â hawl person i gael ei gofrestru.<sup>50</sup>

3.60 Er mwyn cael hawl i gofrestru i bleidleisio, mae'n rhaid i berson fod yn preswyllo yn gyfreithlon yn y DU. Os oes gennych unrhyw amheuan ynghylch p'un a yw ymgeisydd neu etholwr yn breswyllydd cyfreithlon, gallwch ofyn i wirio statws mewnfydiad person yn erbyn cofnodion y Swyddfa Gartref.

3.61 Mae canllawiau pellach ar y broses a manylion cyswllt i'w cael drwy gysylltu â'r Swyddfa Gartref: [ICSSVECWorkflow@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:ICSSVECWorkflow@homeoffice.gsi.gov.uk). Gofynnir i chi gwblhau templed a ddarperir – cwblhewch yr adran isod o dan y pennawd 'Pwnc 1' a'i dychwelyd i'r un cyfeiriad e-bost. Mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn am un

templod fesul pwnc fesul e-bost ac y dylid ychwanegu 'ER' at bennawd pwnc pob E-bost er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r ffolder cywir i gael ymateb. Bydd y Swyddfa Gartref yn ymateb o fewn pum diwrnod gwaith oni fydd angen ffeil. Os felly, bydd yn ymateb o fewn deg diwrnod gwaith. Caiff y ffaith y gall fod angen i chi gael tystiolaeth ychwanegol o genedligrwydd ymgeisydd, ac y gall fod angen i chi ofyn am i statws mewnfudo unigolyn gael ei wirio yn erbyn cofnodion y Llywodraeth ei chynnwys ar y ffurflen gais cofrestru a gymeradwywyd gan y Gweinidog ac a ddarparwyd ar eich cyfer gan y Comisiwn.

## Dinasyddion Prydeinig

3.62 Mae dinasyddion Prydeinig yn bodloni'r cymwysterau cenedligrwydd i gofrestru mewn perthynas â phob etholiad yn y DU.<sup>51</sup>

3.63 Nid yw bod yn briod â dinesydd Prydeinig yn golygu fod person yn dod yn ddinesydd Prydeinig yn syth. Nid yw cael eich geni yn y DU yn golygu dinasyddiaeth Brydeinig chwaith. Os yw ymgeisydd yn ansicr os ydynt yn ddinesydd Prydeinig ai peidio, dylent gysylltu â'r [Swyddfa Gartref](#) i sicrhau eu bod yn bodloni cymwysterau cenedligrwydd cyn gwneud cais.

### Seremonïau dinasyddiaeth

3.64 Seremonïau dinasyddiaeth yw'r cam olaf o gael dinasyddiaeth Brydeinig. Fodd bynnag, nid yw gwahoddiad i seremoni dinasyddiaeth yn ei hun yn brawf o ddinasyddiaeth.

## Cenedligrwydd deuol

3.65 Gall rhai ymgeiswyr gael mwy nag un cenedligrwydd. Dylech wastad brosesu cais yn unol â'r cenedligrwydd sy'n rhoi'r lefel uchaf o etholfraint. Er enghraifft, bydd cais sy'n nodi fod yr ymgeisydd yn ddinesydd deuol Almaeneg a Phrydeinig yn cael ei gofrestru fel dinesydd Prydeinig, gan fod hyn yn rhoi'r etholfraint ehangach iddynt.

3.66 Lle mae cais wedi ei wneud gan breswlydd nad ydynt yn gymwys i gofrestru (er enghraifft dinesydd UDA), rhaid gwrthod eu cais ac anfon hysbysiad gwrthod i'r ymgeisydd. Dylai'r hysbysiad hwn ei gwneud hi'n glir fod y cais wedi methu'r cymhwyster cenedligrwydd ac esbonio pa gamau y dylid eu cymryd pe bai ganddynt hefyd genedligrwydd cymwys. Os oes gan ymgeisydd genedligrwydd fyddai'n rhoi hawl iddynt gofrestru, gellir eu cofrestru gyda'r cenedligrwydd hwnnw.

## Dinasyddion y Gymanwlad

### Cymhwysr i gofrestru

3.67 Mae hawl gan ddinasyddion cymwys y Gymanwlad gofrestru fel etholwyr Seneddol a llywodraeth leol cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion oedran a

phreswyllo ar gyfer cofrestriad o'r fath ar y dyddiad perthnasol ac nad ydynt yn destun unrhyw anallu cyfreithiol arall.<sup>52</sup>

3.68 Nid yw dinasyddion gwledydd y Gymanwlad heblaw'r Deyrnas Unedig, fodd bynnag, yn gymwys i gofrestru fel etholwyr tramor.<sup>53</sup>

#### **Ystyr 'dinesydd cymwys y Gymanwlad'<sup>54</sup>**

3.69 Bydd person sy'n ddinesydd y Gymanwlad yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad at ddibenion cofrestru os nad oes angen caniatâd arnynt i ddod mewn i neu aros yn y DU, neu os oes angen caniatâd arnynt i ddod mewn i neu aros yn y DU, ond eu bod wedi cael caniatâd neu yn cael eu trin fel pe bai ganddynt ganiatâd o'r fath.

3.70 Mae unrhyw fath o ganiatâd i ddod i mewn neu aros yn dderbyniol, yn benagored, gyda therfyn amser neu'n amodol.

#### **Dinasyddion y Gymanwlad yn y DU dros dro ac yn disgwyl eu symud**

3.71 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyngori bod dinasyddion y Gymanwlad sydd yn y DU dros dro ac yn disgwyl eu symud, ddim yn y DU yn gyfreithlon a ddim ond yn breswylwyr yn gorfforol tra bod trefniadau i'w symud yn cael eu gwneud. Gan nad oes gan y dinasyddion hyn ganiatâd i ddod mewn nag aros, nid ydynt yn gymwys i gofrestru i bleidleisio.

#### **Gwledydd y Gymanwlad**

3.72 Mae dinasyddion y gwledydd canlynol yn bodloni meini prawf cenedligrwydd i gofrestru ar gyfer pob etholiad y DU<sup>ii</sup>. Byddant yn parhau i fodloni'r meini prawf cenedligrwydd hyd yn oed os caiff eu gwlad ei gwahardd neu ei diarddel o gymdeithas y Gymanwlad. Mae angen newid Atodlen 3 o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 er mwyn ychwanegu gwlad o'r rhestr o wledydd y gymanwlad neu ddileu gwlad o'r rhestr a dylid cyfeirio at hyn at ddibenion cofrestru etholiadol.

Antigwa a Barbwda	Lesotho	Sierra Leone
-------------------	---------	--------------

<sup>ii</sup> Ym mis Mehefin 2019.

Awstralia	Malawi	Singapore
Y Bahamas	Maleisia	Ynysoedd Solomon
Bangladesh	Malta*	De Affrica
Barbados	Mawrisiws	Sri Lanca
Belise	Mozambique	Swaziland
Botswana	Namibia	Tonga
Brunei	Nawrw	Trinidad a Thobago
Camerŵn	Seland Newydd	Twfalw
Canada	Nigeria	Wganda
Dominica	Pacistan	Y Deyrnas Unedig*
Ffiji	Papua New Guinea	Gweriniaeth Unedig Tansania
Ghana	Gweriniaeth Cyprus*	Vanuatu
The Gambia**	Rwanda	Sambia
Grenada	St Christopher a Nevis	Simbabwe
Gaiana	St Lucia	
India	St Vincent ac	
Jamaica	Ynysoedd y Grenadine	
Cenia	Samoa	
Ciribati	Seychelles	

\*Er eu bod hefyd yn aelod-wladwriaethau'r UE, mae dinasyddion y DU, Cyprus a Malta yn gymwys i gofrestru i bleidleisio ymhob etholiad a gynhelir yn y DU.

\*\*Daeth Gorchymyn Cenedligrwydd Prydeinig (Gambia) 2018 i rym ar 22 Mehefin gan ddiwygio Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 gan ychwanegu Gambia fel gwlad y Gymanwlad.

## Tiriogaethau Prydeinig Tramor <sup>iii</sup>

3.73 Mae Dinasyddion Tiriogaethau Prydeinig Tramor yn ddinasyddion y Gymanwlad ac mae ganddynt hawl i gofrestru fel etholwyr o ran pob etholiad, cyn belled â'u bod yn bodoli'r gofynion oed a phreswyl ar gyfer cofrestriad o'r fath ac nad ydynt yn destun unrhyw anallu cyfreithiol arall.

Anguilla	Montserrat
Ynysoedd Bermwda	Ynys Pitcairn, Henderson, Ducie ad Oeno
Tiriogaeth Brydeinig yr Antarcig	
Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor yr India	St Helena, y Dyrchafael a Tristan da Cunha
Ynysoedd yr Wryf	
Ynysoedd y Caiman	De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De

<sup>iii</sup> Ym mis Mehefin 2019.



Ynysoedd Falkland	Ardaloedd Gorsafoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Cyprus
Gibraltar	Ynysoedd Turks a Caicos

3.74 Nid yw dinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydeinig yn gymwys i gofrestru fel etholwyr tramor.

### Hong Kong

3.75 Yn dilyn trosglwyddo i sofraniaeth Tsieineaidd ar 1 Gorffennaf 1997, diddymwyd Hong Kong o'r rhestr o Dirioogaethau Tramor Prydeinig. O ganlyniad, nid yw cyn-drigolion Hong Kong yn awtomatig yn gymwys fel dinesydd cymwys y Gymanwlad.

3.76 Dim ond y cyn-drigolion hynny o Hong Kong sydd â phasbort Tiriogaeth Ddibynwlad Brydeinig, Gwladolion Prydeinig (Tramor) neu Gwladolion Tramor sy'n bodloni meini prawf cenedligrwydd ar gyfer holl etholiadau'r DU. Mae unrhyw gyn-drigolyn o Hong Kong sydd â phasbort Rhanbarth Gweinyddol Tsieineaidd Arbennig yn Tsieineaidd ac ni all gofrestru.

3.77 Os yw etholwr yn datgan mae eu cenedligrwydd yw Hong Kong Tsieineaidd, dylech arfer eich pwerau i ofyn am dystiolaeth o genedligrwydd yr etholwr a chadarnhau'r math o basbort sydd ganddynt.

## Dibynwledydd Prydeinig y Goron

3.78 Mae Dibynwledydd Prydeinig y Goron yn cynnwys Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel, gan gynnwys Jersey, Guernsey, Sarc, Alderney, Herm ac Ynysoedd cyfannedd eraill y Sianel.

3.79 Ystyrir Dinasyddion Dibynwledydd Prydeinig y Goron sy'n drigolion yn y DU yn ddinasyddion y Gymanwlad at ddibenion cofrestru etholiadol. Fodd bynnag, yn wahanol i ddinasyddion y Gymanwlad, gallant gofrestru fel etholwyr tramor.

## Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

### Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd<sup>iv</sup>

Awstria	Yr Almaen	Portiwgal
Gwlad Belg	Groeg	Gweriniaeth Iwerddon*
Bwlgaria	Hwngari	Rwmania
Croatia	Yr Eidal	Slofacia
Cyprus*	Latfia	Slofenia
Gweriniaeth Tsiec	Lithwania	Sbaen

<sup>iv</sup> Ym mis Mehefin 2019.

Denmarc	Lwcsembwrg	Sweden
Estonia	Malta*	Y Deyrnas Unedig*
Y Ffindir	Yr Iseldiroedd	
Ffrainc	Gwlad Pwyl	

\*Mae dinasyddion y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta yn gymwys i gofrestru i bleidleisio ymhob etholiad a gynhelir yn y DU.

### Cyprus

3.80 At ddibenion cofrestru, ystyrir bod Cyprus i gyd yn wlad y Gymanwlad ac ni ddylech bryderi am y sefyllfa wleidyddol yno. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch p'un a dylid cofrestru person o Cyprus, dylid gofyn iddyn nhw gadarnhau eu bod yn dod o Cyprus, er enghraifft drwy ddarparu Ffurflen Fformat Unffurf<sup>v</sup> gyda visa y DU, trwydded breswyl y DU yn dangos cenedligrwydd o Cyprus, neu dystiolaeth addas arall. Ni ellir seilio cofrestriad fel gwladwr o Cyprus ar Basbort Twrci yn unig.

### Dinasyddion yr UE yn cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop

3.81 Gall dinesydd aelod-wladwriaeth yr UE (ac eithrio'r DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) sy'n preswyl yn y DU ddewis p'un a'u bod am bleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop yn y DU neu yn eu mamwlad. Dim ond unwaith gall dinasyddion yr UE bleidleisio a dim ond mewn un aelod-wladwriaeth mewn etholiad Senedd Ewrop.

3.82 Mae'n rhaid i ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE (ag eithrio y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) sydd am gofrestru ar gofrestr etholwyr perthnasol yr UE sydd â hawl pleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop yn y DU gyflwyno cais a datganiad, sy'n gorfod datgan mai dim ond yn y DU y byddant yn pleidleisio mewn unrhyw etholiad Senedd Ewrop yn ystod cyfnod o 12 mis y datganiad.<sup>55</sup>

3.83 Bydd gan ddinasyddion y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Malta a Cyprus sydd â hawl pleidleisio fel etholwr mewn etholiad seneddol yn y rhanbarth etholiadol, hawl i bleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop ac ni fydd angen iddynt wneud cais a datganiad ar wahân er mwyn cael eu cofrestru ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop.

3.84 Gellir cyflwyno'r cais/datganiad unrhyw bryd, ond bydd ddim ond yn berthnasol cyn etholiad trefnedig Senedd Ewrop. Cyn unrhyw etholiad trefnedig Ewropeaidd, dylech felly roi'r ceisiadau/datganiadau hyn i bob etholwr llywodraeth leol sydd wedi nodi ar eu cais i gofrestru ei bod yn ddinesydd aelod-wladwriaeth yr UE a fydd yn 18 oed neu'n hŷn ar neu cyn y diwrnod pleidleisio.

<sup>v</sup> Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/what-are-acceptable-travel-documents-for-entry-clearance-ecb08/ecb08-what-are-acceptable-travel-documents-for-entry-clearance>

3.85 Bydd rhagddodiad yr etholwyr sy'n dychwelyd cais/datganiad wedi'i gwblhau yn newid o 'G' i 'K' ar y gofrestr. Mae'r newid hwn yn nodi fod y person wedi'i ychwanegu at y gofrestru o etholwyr Senedd Ewrop.

3.86 Mae gan berson sydd wedi cofrestru ar gofrestr etholwyr Senedd Ewrop hawl i barhau wedi cofrestru hyd nes bod un o'r canlynol yn digwydd:<sup>56</sup>

- diwedd y cyfnod o 12 mis o'r dyddiad y mae'r cofnod ar y gofrestr yn dechrau,
- datganiad yr etholwr yn cael ei ddiddymu gan yr etholwr, all ddigwydd unrhyw bryd,
- yr etholwr yn gwneud cais i dynnu eu henw,
- yr etholwr yn cael ei ychwanegu at gofrestr arall o etholwyr Senedd Ewrop,
- yr Ysgrifennydd Gwladol yn anfon gwybodaeth atoch a ddarparwyd gan famwlad yr etholwr, yn dangos bod yr etholwr wedi colli eu hawl i bleidleisio yno.

## Anallu cyfreithiol

3.87 Os yw person yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio, ni ellir cynnwys eu henw ar y gofrestr o etholwyr.<sup>57</sup> Mae person wedi'i wahardd yn gyfreithiol os ydynt yn berson yn un o'r categorïau canlynol:

- **Arglwydd yn Nhŷ'r Arglwyddi:**<sup>58</sup> Nid oes gan Arglwyddi sy'n aelodau o Dŷ'r Arglwyddi hawl i bleidleisio mewn etholiadau senedd y DU, ac felly nid oes hawl ganddynt gael eu cofrestru ar gofrestr etholwyr Senedd y DU. Fodd bynnag, maent yn gymwys i gael eu cofrestr ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol, gan fod ganddynt hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn syml oherwydd eu bod yn Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Mae hefyd ganddynt hawl i gael eu cofrestru ar gofrestr etholwyr Senedd Ewrop.

Gellir dod o hyd i restr lawn o aelodau Tŷ'r Arglwyddi ar wefan Tŷ'r Arglwyddi yn <http://www.parliament.uk/mps-lords-and-offices/lords/>. Neu, bydd y Swyddfa Wybodaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gallu cynorthwyo gydag ymholiadau a gellir cysylltu drwy ffonio 020 7219 3107 neu e-bostio [hinfo@parliament.uk](mailto:hinfo@parliament.uk).

- **Carcharorion euogfarn yn y ddalfa:**<sup>59</sup> Nid yw person sydd wedi ei gael yn euog o drosedd (ac eithrio dirmyg llys) ac sydd yn y ddalfa mewn carchar (heblaw o ganlyniad i beidio â chydymffurfio gyda dedfryd anwarchodol) yn gallu pleidleisio yn gyfreithiol, ac felly nid yw'n gymwys i gael ei gynnwys ar y gofrestr o etholwyr. Mae hyn yn berthnasol p'un a bod y person yn y

carchar neu a'i draed yn rhydd yn anghyfreithlon, ac yn ddifater o p'un a oedd y person wedi'i gynnwys yn iawn ar y gofrestr cyn yr euogfarn.

Fodd bynnag, mae hi'n bosib, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, efallai bod carcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro bodloni'r meini prawf i gofrestru i bleidleisio o bosib, gan fod carcharorion o'r fath ddim yn gallu cael eu cadw yn y ddalfa o fewn ystyr adran 3 RPA 1983.

- **Troseddwyr euogfarn mewn ysbytai iechyd meddwl:**<sup>60</sup> Nid yw troseddwr euogfarn mewn ysbyty iechyd meddwl (neu sydd a'i draed yn rhydd yn anghyfreithlon) yn gallu pleidleisio yn gyfreithlon, ac felly ni ellir ei gynnwys ar y gofrestr o etholwyr.
- **Pobl sydd wedi'u cael yn euog o rai arferion llwgr neu anghyfreithlon:** Nid yw person sydd wedi'i gael yn euog o'r arfer llwgr o bersonadu, neu sydd wedi'i gael yn euog o arfer llwgr mewn perthynas â cheisiadau am bleidleisiau post a thrwy ddirprwy yn gallu cael eu cofrestru i bleidleisio am bum mlynedd o ddyddiad yr euogfarn neu adroddiad llys etholiadol.<sup>61</sup>

Nid yw person sydd wedi'i gael yn euog o'r arferion anghyfreithlon canlynol yn gallu yn gyfreithlon cael ei gofrestru i bleidleisio am dair blynedd o ddyddiad yr euogfarn neu'r adroddiad llys etholiadol:<sup>62</sup>

- pleidleisio neu wneud cais i bleidleisio yn gwybod ei fod yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio
- penodi dirprwy y mae'n gwybod sy'n destun anallu cyfreithiol i bleidleisio
- pleidleisio drwy ddirprwy ar ran rhywun y mae'n gwybod sy'n destun anallu cyfreithiol i bleidleisio
- pleidleisio sawl gwaith (fel etholwr neu ddirprwy)

Gall fod rhai achlysuron fodd bynnag, lle nad yw llys yn gosod unrhyw anallu pellach i gofrestru i bleidleisio, neu'n lliniaru neu'n dod ag anallu presennol i ben. Bydd felly rhaid i chi benderfynu yn ôl achos unigol, gan ystyried, lle'n bosibl, unrhyw ddyfarniadau neu adroddiadau llys. Bydd apêl lwyddiannus yn erbyn euogfarn hefyd yn gwaredu ar yr anallu.

## Gallu meddyliol

3.88 Nid yw diffyg gallu meddyliol yn anallu cyfreithiol i bleidleisio:<sup>63</sup> mae pobl sy'n bodloni'r cymwysterau cofrestru eraill yn gymwys i bleidleisio yn ddifater o'u gallu meddyliol. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein canllawiau cymorth gwneud cais ar wahân ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng [Nghymru a Lloegr](#) a'r [Alban](#) ar reoli'r broses gofrestru yn achos unigolion efallai fydd angen cymorth i gofrestru'n unigol.

### Hawliau pleidleisio

3.89 Fodd bynnag, er gall etholwyr gydag unrhyw lefel neu ddim lefel o allu meddyliol gofrestru i bleidleisio, mae'n rhaid i'r etholwr ei hun wneud y penderfyniad p'un ai i bleidleisio a sut i wneud mewn etholiad, ac nid person arall ar ei ran. Ni all y rheiny sy'n ofalwr person neu sydd fel arall yn gwneud penderfyniadau ar ran person wneud penderfyniadau ar bleidleisio.



Rydym wedi cynhyrchu canllawiau i staff gofal yng [Nghymru a Lloegr](#) ac yn yr [Alban](#) ar ymgysylltu gyda'r rheiny yn eu gofal, a'r lefelau o gymorth y gallant ddarparu mewn perthynas â chais person i gofrestri a phleidleisio absennol.

## 4 Sut i gofrestru

4.1 Gellir gwneud cais i gofrestru ar-lein neu ar bapur (ac o bosib drwy ddulliau eraill fel y gosodir isod).

### Sianeli cofrestru

4.2 Bydd trigolion yn gallu gwneud cais i gofrestru mewn nifer o ffyrdd:<sup>64</sup>

- ffurflen ar-lein a gynhelir gan y [gwasanaeth digidol IER](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio) - [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)
- dros y ffôn i'ch staff (os ydych yn cynnig y gwasanaeth)
- yn bersonol yn eich swyddfa (os ydych yn cynnig y gwasanaeth)
- drwy ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol yn ysgrifenedig (e.e. ar ffurflen bapur)

4.3 Er bod rhai ffurflenni fydd yn rhaid i chi anfon i etholwyr posib o fewn amserlen benodol, nid yw rhyngweithio gydag etholwyr posib yn golygu y bydd angen i chi anfon ffurflen atynt, o leiaf yn y lle cyntaf, neu fod yn rhaid iddynt gwblhau ffurflen a'i dychwelyd atoch. Er enghraifft, os oes gennych gyfeiriad e-bost ar gyfer etholwr, gallech ei ddefnyddio i'w hannog i gyflwyno cais ar-lein. Gallwch hefyd roi gwahoddiad i gofrestru drwy ddulliau electronig, gan gynnwys e-bost.

4.4 Er na fydd Gwasanaeth Digidol IER yn caniatáu i berson i gyflwyno ar-lein heblaw eu bod yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i brosesu cais neu wedi rhoi rheswm pam na ellir darparu'r wybodaeth hon. Efallai byddwch yn dal i dderbyn ceisiadau (er enghraifft ar ffurflen bapur) nad ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer prosesu. Mewn achosion o'r fath, byddwch yn gallu cael y wybodaeth sydd ar goll drwy amryw sianeli, waeth pa sianel a ddefnyddiwyd ar gyfer y cais gwreiddiol.

4.5 Er bod proses benodol i'w dilyn pan na all rhywun ddarparu eu dyddiad geni, Rhif Yswiriant Gwladol neu genedligrwydd, gallwch gasglu gwybodaeth sydd ar goll dros y ffôn, yn bersonol neu dros e-bost. Er enghraifft, efallai na fydd hi'n glir o gais papur p'un a bod Rhif Yswiriant Gwladol ar goll oherwydd camgymeriad gan yr etholwr posib neu oherwydd nad ydynt yn gallu ei ddarparu. Pan fo gennych rif ffôn neu gyfeiriad e-bost ar gyfer yr etholwr hwnnw, byddwch yn gallu cael y wybodaeth sydd ar goll drwy'r sianeli hynny.

4.6 Dylai hyrwyddo'r gwahanol fathau o gofrestru, drwy gyswllt uniongyrchol gydag etholwyr ac yn eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad, hefyd helpu i wneud y broses ymgeisio mor hygyrch â phosibl i etholwyr. Dylech ei gwneud hi'n glir beth yw'r gwahanol ffyrdd o wneud cais, fel y gall etholwyr wneud dewis yn seiliedig ar y sianel sy'n diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau orau.

4.7 Mae'r ystyriaethau a osodir yng ngweddill y bennod hon sy'n berthnasol i'r sianeli ar gyfer cyflwyno cais i gofrestru hefyd yn berthnasol i Ffurflenni Ymholiad y Cartref (HEF), heblaw mae ar eich doethineb chi yr ydych yn darparu mecanwaith ar-lein i ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref. Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i berson sydd wedi derbyn Ffurflen Ymholiad y Cartref ddarparu'r wybodaeth sydd ei angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol<sup>65</sup>, ond does dim gofyn i'r ffurflen ei hun gael ei dychwelyd. Mae hyn yn cynnwys pan fo newidiadau i'r wybodaeth a ragargraffir ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref neu pan fo gwybodaeth newydd yn cael ei rhoi. Bydd y sianeli yr ydych yn eu darparu i bobl i ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref yn cael eu penderfynu gennych chi yn seiliedig ar amgylchiadau lleol, a gallai gynnwys dros y ffôn neu ar-lein. Pa bynnag sianeli a ddarperir gennych, mae'n rhaid i chi sicrhau, pa bynnag ddull a ddefnyddir, ei fod yn galluogi'r person sy'n ymateb i ddarparu'r holl wybodaeth a gwneud datganiad gwirionedd.

## Ceisiadau dros y ffôn ac yn bersonol

4.8 Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi gwneud a derbyn ceisiadau dros y ffôn ac yn bersonol. Er budd a hwylustod etholwyr, dylech gynnig y gwasanaethau hyn lle bynnag fo'n bosibl. Bydd hyn hefyd yn eich cynorthwyo i gyflawni'ch dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan y gall pobl sy'n cael trafferth llenwi'r ffurflen bapur neu ar-lein, gael cyfle i ymgeisio heb i chi ddarparu gwybodaeth iddynt yn ysgrifenedig.

4.9 Hyd yn oed os na allwch ddarparu cofrestru dros y ffôn/yn bersonol i bob ymgeisydd, fe allech benderfynnu gwneud mewn rhai amgylchiadau, a dylech wneud i gynorthwyo ymgeiswyr gydag anableddau er mwyn diwallu eich rhwymedigaethau cydraddoldeb.

4.10 Dylech adolygu gweithdrefnau eich swyddfa i sicrhau eich bod yn gallu delio gyda'r nifer ac amlder yr unigolion yr ydych yn disgwyl bydd yn defnyddio sianeli cyswllt wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Drwy amcangyfrif hyn, dylech ystyried eich profiadau a'r niferoedd yr ydych wedi'u derbyn hyd yn hyn.

4.11 Os penderfynwch ganiatáu ceisiadau dros y ffôn, efallai y penderfynwch ddefnyddio canolfan gyswllt ganolog. Os gellir gwneud ceisiadau drwy ganolfan gyswllt, efallai y bydd cyfleoedd i staff i hyrwyddo cofrestru i drigolion sy'n cysylltu gyda'r awdurdod am reswm arall, a chymryd cais dros y ffôn, fyddai'n helpu i wneud y mwyaf o gyfanrwydd a chywirdeb y gofrestr, ac yn golygu nad oes rhaid i chi eu gwahodd i gofrestru.

4.12 Oherwydd bod gofyn i gais fod 'yn ysgrifenedig', pan fo person yn gwneud cais dros y ffôn neu yn bersonol, bydd yn rhaid i chi drosglwyddo'r wybodaeth i gais ysgrifenedig. Yn ymarferol, gellir gwneud hyn drwy fewnbynnu'r wybodaeth ar gais papur neu ar y system ar-lein.

4.13 Mae hi'n bwysig sicrhau y cymerir cofnodion clir mewn achosion lle'r ydych yn cymeradwyo i geisiadau neu wybodaeth gael eu rhoi dros y ffôn neu yn bersonol.

4.14 Os penderfynwch dderbyn ceisiadau yn y modd hwn, cyn cychwyn mynd drwy'r wybodaeth sydd ei hangen, dylech hysbysu'r ymgeisydd o'r canlynol:

- y bydd y wybodaeth y maent yn ei darparu yn cael ei phrosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan adlewyrchu'r geiriad a ddefnyddiwyd yn y ffurflen cofrestru pleidleiswyr ragnodedig sydd ar gael ar ein gwefan
- pa wybodaeth fydd yn ymddangos ar y gofrestr
- ei bod hi'n drosedd darparu gwybodaeth ffug gan wybod hynny, ac mae'r gosb uchaf yw hyd at chwe mis yn y carchar a/neu ddirwy amhenodol yng Nghymru a Lloegr neu ddirwy heb fod yn fwy na £5,000 yn yr Alban.

4.15 Cyn gofyn p'un a yw'r ymgeisydd am i'w henw a'u cyfeiriad gael ei gynnwys ar y gofrestr agored mae'n rhaid i chi roi esboniad o beth yw'r gofrestr agored, gan ddefnyddio'r ffurf fer ragnodedig o'r geiriad<sup>vi</sup>, a throsglwyddo'r wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd mewn i gais ysgrifenedig.

4.16 Wrth gymryd gwybodaeth ar genedligrwydd yr ymgeisydd, dylech ystyried tynnu sylw ymgeiswyr at y ffaith bod yn rhaid i berson fod yn preswlio'n gyfreithlon yn y DU ac y gellid gwirio statws mewnfudo ymgeisydd gyda chofnodion y Swyddfa Gartref.

4.17 Mae canllawiau pellach ar y broses a manylion cyswllt i'w cael drwy gysylltu â'r Swyddfa Gartref: [ICSSVECWorkflow@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:ICSSVECWorkflow@homeoffice.gsi.gov.uk). Gofynnir i chi gwblhau templed a ddarperir – cwblhewch yr adran isod o dan y pennawd 'Pwnc 1' a'i dychwelyd i'r un cyfeiriad e-bost. Mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn am un templed fesul pwnc fesul e-bost ac y dylid ychwanegu 'ER' at bennawd pwnc pob E-bost er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r ffolder cywir i gael ymateb. Bydd y Swyddfa Gartref yn ymateb o fewn pum diwrnod gwaith oni fydd angen ffeil. Os felly, bydd yn ymateb o fewn deg diwrnod gwaith. Caiff y ffaith y gall fod angen i chi ofyn am i statws mewnfudo unigolyn gael ei wirio yn erbyn cofnodion y Llywodraeth ei chynnwys ar y ffurflen gais cofrestru a gymeradwywyd gan y Gweinidog ac a ddarparwyd ar eich cyfer gan y Comisiwn.

---

<sup>vi</sup> Mae ffurf y geiriad ar wedi ei gynnwys ar y ffurflen gais i gofrestru a'r ffurflen ymholiad y cartref wedi'i ragaraffu



4.18 Gallwch hefyd ofyn am gyfeiriad e-bost ac unrhyw rifau ffôn sydd gan yr ymgeisydd i gysylltu yn y dyfodol, yn ogystal â nodi a yw'r ymgeisydd am allu pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Fodd bynnag, dylech egluro nad oes yn rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth hon.

4.19 O dan ddeddfwriaeth diogelu data, gall etholwr wrthwynebu i'w fanylion cyswllt e-bost neu ffôn gael eu prosesu. Er mwyn dangos eich bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw, dylech gadw cofnodion er mwyn nodi unrhyw gais a wneir yn unol â'r hawl i wrthwynebu i fanylion cael eu prosesu. Efallai y bydd gan eich darparwr Meddalwedd Rheoli Etholiadol gyfleuster i gofnodi cydsyniad yn erbyn cofnodion etholwyr a dylech drafod sut i reoli'r broses yn ymarferol gydag ef. Dylech adolygu eich templedi e-bost presennol gan sicrhau, lle rydych yn e-bostio etholwyr, eich bod yn cynnwys opsiwn 'datdanysgrifio' ar bob e-bost er mwyn galluogi gwrthrych y data i wrthwynebu i'r defnydd o'i wybodaeth gyswllt at y diben hwn. Mae'r gwahoddiad i gofrestru drwy e-bost, y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio, wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys opsiwn datdanysgrifio.

4.20 Mae'n rhaid i bob ymgeisydd wneud datganiad gwirionedd,<sup>66</sup> ond dylech sicrhau fod gan yr ymgeisydd gyfle i adolygu'r wybodaeth y maent wedi darparu i sicrhau ei fod yn wir ac yn gywir. Unwaith i chi gymryd yr holl wybodaeth, gallech er enghraifft ddarllen y wybodaeth yn ôl i'r ymgeisydd a gofyn iddynt gadarnhau eich bod wedi'i gofnodi'n gywir a bod y wybodaeth yn wir.

4.21 Os nad oes gan ymgeisydd yr holl wybodaeth wrth law, gallant alw yn ôl gydag ef rywbryd arall. Er mai dim ond y wybodaeth sydd ar goll y bydd angen i chi ei chasglu, dylech fyd drwy'r un broses o roi'r wybodaeth gyffredinol i'r etholwr ynghylch sut y defnyddir eu data a dweud wrthynt ei bod hi'n drosedd i wneud datganiad ffug. Bydd yn rhaid gwneud datganiad gwirionedd ar gyfer y wybodaeth sydd ar goll a dylech roi cyfle i'r ymgeisydd adolygu'r wybodaeth a chywiro unrhyw gamgymeriadau.

## Ceisiadau ar-lein

4.22 Os oes gennych gyfeiriad e-bost ar gyfer etholwyr fe allech ei ddefnyddio i'w hannog i gyflwyno cais ar-lein. Gallwch hefyd anfon gwahoddiad i gofrestru drwy ddulliau electronig, gan gynnwys dros e-bost.

4.23 Mae'r ffurflen cofrestru ar-lein yn cael ei chynnal ar wefan ganolog y llywodraeth [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio). Dylid gosod dolen i'r ffurflen hon o'ch gwefan, ac yn eich gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd i annog ymgeiswyr i ddefnyddio'r ffurflen ar-lein. Bydd gwybodaeth o ffurflenni cofrestru a gwblheir ar-lein yn cael eu hanfon at eich system EMS yn syth gan wasanaeth digidol IER.

4.24 Gall hyrwyddo sianeli ar-lein a sianeli eraill ei gwneud hi'n haws ac o bosib yn rhatach i chi brosesu ceisiadau, gan osgoi'r angen i ddelio gyda ffurflenni papur. Mae pobl yn fwyfwy cyfarwydd â gallu cynnal eu busnes personol ac ariannol ar-lein a bydd nifer yn gwerthfawrogi'r gallu i gwblhau eu cais a'i gyflwyno yn y modd hwnnw. Bydd nifer o ymgeiswyr yn elwa o allu cwblhau eu cais ar-lein:

- gallai'r ffurflen ar-lein ddarparu mwy o ddewisiadau mynediad yn hytrach na ffurflen bapur i ganiatáu i bobl gydag anghenion cyfathrebu penodol i gwblhau cais yn haws, e.e. gallu cydweddu â darllenwyr sgrin electronig a ddefnyddir gan y rheiny â nam ar eu golwg.
- gallant gael eu sicrhau bod eu cais wedi'i gwblhau ac nad yw'n cynnwys unrhyw gamgymeriadau amlwg gan na fydd y broses ar-lein yn caniatáu cyflwyno ceisiadau anghyflawn, er enghraifft, os yw gwybodaeth (megis dyddiad) yn cael ei roi yn y fformat anghywir
- gallant fod yn sicr ei fod yn cael ei dderbyn yr eiliad y caiff ei gyflwyno ganddynt (sy'n arbennig o berthnasol yn agos i ddyddiad cau cofrestru cyn etholiad)

4.25 Pan fo ymgeiswyr yn penderfynu defnyddio'r ffurflen ar-lein yn hytrach na ffurflen bapur, byddwch chi'n elwa hefyd:

- lleihau'r angen i fewnbynnu data â llaw
- llai o gamgymeriadau oherwydd 'dilysu' y wybodaeth a roddir ar-lein a dim angen dadansoddi llawysgrifen
- bydd y cais yn gyflawn pan fyddwch yn ei dderbyn, gan leihau'r angen i chi i ddilyn i fyny i ofyn am unrhyw wybodaeth sydd ar goll bydd y dilysu yn digwydd yn syth yn hytrach nag unwaith i chi dderbyn a mewnbynnu'r data i'ch system EMS
- dim gorfod derbyn, agor, sganio a storio ffurflen bapur

### **Diweddarau tudalennau gwe**

4.26 Dylid hyrwyddo cofrestru ar-lein yn eich gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd eich gwefan hefyd yn ddefnyddiol iawn i gyfathrebu negeseuon ynghylch cofrestru ac i annog ceisiadau i gofrestru.

4.27 Dylech barhau i adolygu a diweddarau unrhyw gyngor cyffredinol neu wybodaeth ar eich gwefan mewn perthynas â chofrestru etholiadol fel bod gan bobl y wybodaeth gywir a diweddaraf am sut i gofrestru.

## Ffurflenni papur

4.28 Does dim gofyn i gais i gofrestru a wneir yn ysgrifenedig (ar bapur) i gael ei wneud ar ffurflen benodol. Mae'n rhaid i'r cais fodd bynnag, gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cais dilys (gweler Pennod 4, [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#)). Gallwch anfon ffurflenni drwy'r post, dosbarthu'n bersonol, neu eu hanfon yn electronig, megis drwy ffacs neu gopi wedi'i sganio dros e-bost.

4.29 Pan fod ffurflenni ar gael nad oes gwybodaeth bersonol arnynt yn barod, gallwch eu dosbarthu ar gopi caled neu'n electronig er mwyn iddynt gael eu printio, eu cwblhau a'u dychwelyd atoch.

4.30 Rhaid i'r cais papur y mae'n rhaid i chi ei gynnwys ynghyd â'ch gwahoddiad i gofrestru fod y ffurflen a gymeradwywyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, ac ar gael gan y Comisiwn.<sup>67</sup>

4.31 Os derbyniwch gais ysgrifenedig nad yw ar ffurflen gais, dylech sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth a restrir ym Mhennod 4 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#). Os nad yw'n gyflawn, dylech ddilyn y broses a amlinellir ym Mhennod 4 yn [Rhan 4](#) o dan 'ceisiadau anghyflawn'.

4.32 Pan fyddwch yn derbyn ceisiadau ysgrifenedig heb fod ar y ffurflen a gymeradwywyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ac nad yw'n cynnwys yr esboniad ar y cofrestrau llawn ac agored gan ddefnyddio ffurf fer ragnodedig o eiriau, dylech ysgrifennu at yr ymgeisydd i roi'r ffurf byr o'r geiriad rhagnodedig iddynt. Dylech hefyd ddangos eu dewis cofrestr agored fel sydd yn eu cais a chynnwys esboniad o sut i newid eu dewis os mynnant.



Mae mwy o gyfarwyddyd ar gynnwys ceisiadau; sut i ddelio gyda cheisiadau dros y ffôn ac yn bersonol; prosesu ceisiadau; a gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd i'w gael yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

## Newid enw

4.33 Os yw etholwr yn gwneud cais i newid eu henw, mae'n rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys:<sup>68</sup>

- enw'r ymgeisydd yn llawn
- eu henw'n llawn y maent wedi'i gofrestru gydag ar hyn o bryd
- dyddiad newid enw
- cyfeiriad cofrestru
- datganiad gan yr ymgeisydd bod y wybodaeth a ddarperir ar y cais yn wir

- dyddiad y cais
- tystiolaeth gefnogol o'r newid



Mae [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn'](#), yn cynnwys manylion o sut i wneud newidiadau i gofnodion presennol ar y gofrestr, a dolen i [ffurflen templed newid](#) enw'r Comisiwn.

# 5 Cynnal y gronfa ddata eiddo

5.1 Dylech gynnal cronfa ddata eiddo gynhwysfawr er mwyn ymgymryd â'ch dyletswyddau cofrestru yn effeithiol a chymryd camau i'w gynnal drwy gydol y flwyddyn. Gallech, er enghraifft, ddefnyddio staff y canfas i chwilio am eiddo nad ydynt ar y gronfa ddata bresennol, a chywiro unrhyw gamgymeriadau a nodir. Ble byddwch yn defnyddio staff y canfas at y diben hwn, dylech sicrhau fod unrhyw staff sy'n ymweld yn cael cyfarwyddiadau clir ynghylch cofnodi ac adrodd am faterion mewn perthynas ag eiddo y maent yn eu nodi, er enghraifft os yw adeilad wedi'i dymchwel, fflatiau wedi'u newid yn ôl i dŷ neu eiddo newydd yn cael ei adeiladu. Lle bo cardiau pleidleisio yn cael eu dosbarthu â llaw gan staff etholiadol, gellid defnyddio'r ymarfer hwn hefyd i wirio'r gronfa ddata 'yng nghanol y flwyddyn'.

5.2 Dylech hefyd archwilio cofnodion awdurdodau lleol eraill i gynorthwyo gyda nodi eiddo preswyl newydd, a'r rheiny sydd wedi newid defnydd, yn ogystal â'r rheiny sy'n wag, ddim yn bodoli, neu eto i'w hadeiladu.

5.3 Mae'n hanfodol fod yr holl eiddo yn cael eu gosod yn y rhanbarthau pleidleisio cywir i osgoi bod etholwyr yn cael eu cynnwys yn yr ardal etholiadol anghywir. Dylid cymryd gofal arbennig o ran hyn mewn perthynas ag eiddo newydd a lle y gwnaed newidiadau i unrhyw ffiniau. Gellir archwilio cofnodion eraill awdurdod lleol fel systemau mapio eu defnyddio i helpu i sicrhau lleoli cywir eiddo ar y gronfa ddata eiddo. Dylech fod yn fodlon nad oes camgymeriadau ar gofnod yr awdurdod lleol cyn i chi newid cronfa ddata yr eiddo.

5.4 Gallai cysylltu gyda'r adrannau canlynol fod o ddefnydd:

- **Treth gyngor:** Bydd y Swyddfa Gwerthuso yn rhoi manylion i swyddfa' dreth gyngor o newidiadau i werthoedd ardreth, er enghraifft pan fod eiddo yn cael eu trosi, adeiladu neu eu dymchwel. Dylech ofyn am gopi o'r wybdoeth hon.

Yn yr Alban, lle'r ydych hefyd yn gweithredu o fewn swyddfa'r Aseswr, dylai'r broses hon fod yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, dylech sicrhau bod perthnasau a phrosesau da rhwng y bobl a'r system a ddefnyddir ar gyfer y ddwy broses wahanol.

- **Cofrestr o gartrefi amlfeddiannaeth (HMOs):** Gall HMOs achosi problemau penodol wrth sicrhau y cofrestrir trigolion yn gywir. Efallai na fydd y post a gyfeirir at 'y Deiliad' yn cael ei gwblhau gan unrhyw un o'r preswylwyr gan fod y ffurflen wedi'i chyfeirio at 'Ddeiliad' yr adeilad ac nid unrhyw ystafell neu fflat yn benodol.

Mae Deddf Tai 2004 yn darparu ar gyfer trwyddedu gorfodol rhai HMOs yng Nghymru a Lloegr ac mae Deddf Tai (yr Alban) 2006 yn gwneud darpariaethau tebyg o ran HMOs yn yr Alban.

Yng Nghymru a Lloegr, fel rhan o'r cynllun trwyddedu, mae gofyn i landlordiaid rhai HMOs ddarparu gwybodaeth i'r cyngor trwyddedu, gan gynnwys:

- enw a chyfeiriad y landlord a'r asiant rheoli (os oes un)
- y nifer o unedau gosod ar wahân
- y nifer o gartrefi yn yr HMO
- y nifer o bobl yn yr HMO

Yn ychwanegol, bydd awdurdod tai lleol yn cynnal cofrestr gyhoeddus o'r trwyddedau y mae wedi'u rhoi, sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, y nifer o ystafelloedd yn yr HMO sy'n daprau:

- lle i gysgu, a
- lle i fyw (ac, yn achos HMO lle mae fflatiau, y nifer o fflatiau)

Yn debyg, yn yr Alban, mae'n rhaid i landlordiaid ddarparu gwybodaeth benodol i'r awdurdod lleol o ran HMOs a llety rhent preifat eraill, ac yn eu tro, mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal cofrestrau cyhoeddus sy'n cynnwys gwybodaeth o ran trwyddedau ar gyfer llety yn eu hardal nhw.

Dylech drefnu i archwilio'r cofnodion hyn wrth adolygu eich cronfa ddata eiddo er mwyn sicrhau bod pob preswylwr o fewn HMOs yn derbyn gweithgarwch cofrestru ar wahân.

- **Rheoli cynllunio ac adeiladu:** Efallai y gwelwch fod gwybodaeth rheoli cynllunio ac adeiladu o werth i gynnal eich cronfa ddata eiddo. Dylai'r adran rheoli datblygu allu darparu rhestrau cyson o gydsyniadau. Efallai na fydd yr holl wybodaeth ar y rhestrau llawn o gydsyniadau, fel cydsyniadau dibreswyl yn adeiladau rhestredig yn berthnasol, ac felly dylid cymryd gofal i beidio ag ychwanegu unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol i'r gronfa ddata eiddo.

Dylech ddal cydsyniadau cynllunio amlinellol ar gofnod er gwybodaeth hyd nes bod cydsyniad llawn yn cael ei roi. Mae'n bosib na fydd datblygwr yn dechrau ar ddatblygiad am nifer o flynyddoedd ac efallai y newidir manylion cydsynio cyn i'r datblygiad ddigwydd.

Gall archwilio cofnodion rheoli adeiladu a chysylltu gydag adeiladwyr tai hefyd nodi sefyllfa cynnydd datblygiadau newydd a p'un a'u bod yn barod i breswyllo ynddynt.

Yn hytrach na chysylltu gyda rheoli cynllunio ac adeiladu yn uniongyrchol, efallai y gallwch gael mynediad at y wybodaeth berthnasol gan y Swyddfa Gwerthuso neu'r Aseswr Lleol yn yr Alban.

- **Rhestrau tir ac eiddo lleol (LLPGs) a rhestrau eiddo corfforaethol (CAGs):** Mae LLPGs yng Nghymru a Lloegr, a CAGs yn yr Alban yn arbennig o ddefnyddiol. Yn aml maent yn cael eu cynnal gan geidwaid rhestrau neu berson â theitl tebyg. Mae'n hanfodol eich bod yn gweithio'n agos gyda cheidwaid y rhestrau i sicrhau diweddariadau cyflym a chywir i'ch cronfa ddata eiddo. Lle bo hyn yn bosibl, dylech ystyried dal gwybodaeth y rhif cyfeirnod eiddo unigryw (UPRN) o'r ffynonellau hyn yn eich cronfeydd data eich hun, gellid wedyn ei ddefnyddio ynghyd â systemau gwybodaeth daearyddol, fel y gosodir isod. Er y dylai rhestr eiddo diweddar a chynhwysfawr allu rhoi'r wybodaeth ar holl unedau llety, gan gynnwys ystafelloedd a fflatiau mewn adeilad, efallai y gwnewch ddarganfod newidiadau i eiddo, y gallwch fwydo yn ôl i'r LLPG neu'r CAG fel bo'n briodol.

Dylech fod mewn cyswllt gyda'ch tîm LLPG neu CAG, i sicrhau bod UPRNs wedi'u rhoi i bob eiddo yn eich ardal, gan y bydd hyn yn hwyluso proses paru data gyda chofnodion swyddogol eraill.

- **Systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS):** Gall GIS fod yn declyn defnyddiol i leoli eiddo a chynnal a chadw ffiniau ardaloedd canfasio a dosbarthau pleidleisio, yn ogystal â ffiniau etholiadol eraill. Dylid rhoi mapiau i staff sy'n gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ ac ymweliadau personol i'w cynorthwyo i ddod o hyd i eiddo ac i ddilyn cynnydd unrhyw ddatblygiadau newydd. Gall GIS hefyd gael ei ddefnyddio ynghyd â data eiddo sydd wedi'i gyfeirnoddi'n iawn, a gall fod yn arbennig o ddefnyddiol i ddadansoddi amrywiadau wrth ddychwelyd gwybodaeth, ac felly gall hysbysu eich cynllunio ar sut allwch gyflawni eich dyletswyddau o gynnal y gofrestr.
- **Enwi strydoedd:** Bydd gorchmynion enwi a rhifo strydoedd yn rhoi gwybodaeth am eiddo, datblygiadau newydd ac unrhyw newidiadau i gynlluniau enwi a rhifo ffyrdd ar strydoedd. Os nad yw gwybodaeth o'r fath yn cael ei roi gan yr adran sy'n gyfrifol am enwi a rhifo strydoedd, dylech ofyn amdano gan y bydd o gymorth i chi wrth gynllunio eich gwaith cofrestru.
- **Gwasanaethau cymdeithasol:** Bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gallu rhoi rhestrau cyfoes o gartrefi preswyl a gofal..
- **Cofrestrfa Tir/Cofrestrau'r Alban:** Gellir defnyddio'r adnoddau hyn i ddod o hyd i wybodaeth ar berchnogaeth eiddo a gwerthu eiddo, all ddarparu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar newidiadau, yn enwedig gan y rhoddir enw'r prynwr sy'n eich galluogi i anfon gohebiaeth bersonol.

5.5 Mae gan nifer o eiddo masnachol a diwydiannol anheddau preswyl wedi'u hatodi iddynt efallai na fyddai'n amlwg. Mae siopau yn enghraifft o'r fath lle ceir fflatiau uwchben yr eiddo mân-werthu, a gall eu defnydd fel unedau preswyl newid o flwyddyn i flwyddyn; mae cysylltu gyda pherchnogion siop a chyflogeion yn gallu helpu nodi anheddau preswyl. Yn yr Alban gallwch hefyd ddefnyddio'r Gofrestr Gwerthuso i gael gwybodaeth am eiddo rhannol-preswyl. Yng Nghymru a Lloegr, fe'u gelwir yn eiddo cyfansawdd ar y Rhestr Gwerthuso.

5.6 Gall ffynonellau gwybodaeth allanol hefyd fod yn werthfawr. Gall y Post Brenhinol er enghraifft ddarparu gwybodaeth ar godau post. Cyhoeddir diweddariadau codau post yn flynyddol am ddim. Gallwch hefyd gael codau post ar gyfer cyfeiriadau penodol, neu gyfeiriadau ar gyfer codau post o [www.royalmail.com](http://www.royalmail.com).

5.7 Lle bo unrhyw ddatblygiadau newydd yn eich ardal o ran codau post, dylech e-bostio'r Ganolfan Gymorth IER: [ierservice@digital.cabinet-office.gov.uk](mailto:ierservice@digital.cabinet-office.gov.uk). Bydd y Ganolfan Gymorth IER yn ychwanegu unrhyw godau post y mae'r cyhoedd yn dweud wrthynt sydd ar goll o'u systemau fel bod ymgeiswyr yn gallu dod o hyd i'w codau post a rhoi eu cyfeiriad i mewn eu hun. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddilysu codau post newydd. Dylech ddilysu unrhyw godau post newydd cyn gynted ag sy'n bosibl pan ofynnir i chi wneud gan y Ganolfan Gymorth IER.



Bydd y broses o gynnal y gofrestr hyd yn oed yn bwysicach wrth baratoi i ddiwygio'r canfas.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymarfer paru data cenedlaethol a fydd yn rhan o brawf data diwygio'r canfas yn gynnar yn 2020, gweler [Rhan I – Canllawiau ar brawf data diwygio'r canfas](#).

Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd wedi darparu canllawiau ar baratodau a phrosesau a awgrymir ar gyfer paru data lleol yn [Rhan II – Profi data lleol](#).



Ceir canllawiau ar archwilio cofnodion y cyngor ym Mhennod 2 o [Ran 4: 'Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn'](#) ac yn Adran 2 o'r Canllawiau Gweinidogol, hefyd yn Rhan 4.

Mae Adran 11 o'n [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn amlygu pwysigrwydd dangos bod yr holl wybodaeth a geir drwy arolygu cofnodion y cyngor yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol.





### **Rhannu arfer da**

Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ffordd mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes er mwyn helpu i sicrhau bod cofrestrau mor gywir a chyflawn â phosibl yn ein hadnodd '[Defnydd effeithiol o'r data sydd ar gael](#)'.

---

<sup>1</sup>Adran 9 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 1983

- 
- <sup>2</sup> Rheoliad 5(2) o Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Etholfraint Dinasyddion Perthnasol yr Undeb) 2001
  - <sup>3</sup> Adran 3(7) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 1985
  - <sup>4</sup> Rheoliad 93 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (Rheoliadau 2001)
  - <sup>5</sup> Adrannau 52 a 54 o RPA 1983
  - <sup>6</sup> Adran 63 o RPA 1983
  - <sup>7</sup> Rheoliad 32ZA(4A) a (4B) o Reoliadau 2001, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001 (RPR (yr Alban) 2001)
  - <sup>8</sup> Rheoliad 32ZB o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>9</sup> Atodlen 4 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 2000 a Rheoliad 45 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>10</sup> Adran 52(2) o RPA 1983
  - <sup>11</sup> Adran 54(3) o RPA 1983
  - <sup>12</sup> Adran 54(4) o RPA 1983
  - <sup>13</sup> Adran 10ZC(1) RPA 1983
  - <sup>14</sup> Rheoliadau 26(8) a (9) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>15</sup> Adran 4(6) o RPA 1983
  - <sup>16</sup> Adran 9(2) o RPA 1983
  - <sup>17</sup> Adrannau 4(1)(a) a 4(3) o RPA 1983
  - <sup>18</sup> Rheoliadau 26B a 23(1A) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>19</sup> Rheoliad 23(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>20</sup> Rheoliad 23(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>21</sup> Adran 5(2) o RPA 1983
  - <sup>22</sup> Adran 5(3) o RPA 1983
  - <sup>23</sup> Adran 5(2) o RPA 1983
  - <sup>24</sup> Adran 5(5) o RPA 1983
  - <sup>25</sup> Adran 6 o RPA 1983
  - <sup>26</sup> Adran 7B o RPA 1983
  - <sup>27</sup> Adran 7B o RPA 1983
  - <sup>28</sup> Adran 7B o RPA 1983
  - <sup>29</sup> Adran 7(2) o RPA 1983
  - <sup>30</sup> Adran 7(5)(b) o RPA 1983
  - <sup>31</sup> Adran 7(5)(a) o RPA 1983
  - <sup>32</sup> Adran 3A o RPA 1983
  - <sup>33</sup> Adran 7A(2) o RPA 1983
  - <sup>34</sup> Adran 7A(5)(b) o RPA 1983
  - <sup>35</sup> Adran 7A(5)(a) o RPA 1983
  - <sup>36</sup> Adrannau 4(1)(d), 3(d), 1(1)(d), 2(1)(d) o RPA 1983
  - <sup>37</sup> Adran 4(5) o RPA 1983
  - <sup>38</sup> Rheoliad 24 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>39</sup> Rheoliadau 24(2)(a), (b) a (d)(i) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>40</sup> Adran 13D o RPA 1983
  - <sup>41</sup> Adran 1(1)(c) o RPA 1983
  - <sup>42</sup> Rheoliad 42(3) a (4) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
  - <sup>43</sup> Adran 2(1)(c) o RPA 1983

- 
- 44 Adran 11 o Ddeddf yr Alban 1998
- 45 Adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
- 46 Adran 36(2A) o RPA 1983
- 47 Adran 51(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2001
- 48 Rheoliad 24 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 49 Rheoliad 24(5) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 50 Rheoliad 23 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 51 Adrannau 4(1)(c) a (3)(c) o RPA 1983
- 52 Adrannau 4(1)(c) a (3)(c) o RPA 1983
- 53 Adrannau 1(1) a 2 o RPA 1985
- 54 Adran 4(6) o RPA 1983
- 55 Rheoliad 6 o Reoliadau Theoliadau Senedd Ewrop (Etholfraint Dinasyddion Perthnasol yr Undeb) 2001
- 56 Rheoliad 10 o Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Etholfraint Dinasyddion Perthnasol yr Undeb) 2001
- 57 Adran 4 o RPA 1983
- 58 Adran 3(2) o Ddeddf Tŷ'r Arglwyddi 1999
- 59 Adran 3 o RPA 1983
- 60 Adran 3A o RPA 1983
- 61 Adrannau 60, 62, 173(1), (2) a (3) o RPA 1983
- 62 Adrannau 61, 173(1), (2) a (3) o RPA 1983
- 63 Adran 5(6) o RPA 1983
- 64 Rheoliad 26(8) a (9) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 65 Rheoliad 23(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 66 Rheoliad 26(1)(j) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 67 Rheoliad 32ZC(3)(b) o Reoliadau 2001, RP (yr Alban) 2001
- 68 Rheoliadau 26A(1) a (4) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001